


Ail Gynllun Datblygu
Lleol Newydd Bwrdeistref
Sirol Caerffili 2020-2035

# EB1 Asesiad Opsiynau Strategaeth

*Diweddarwyd Tachwedd 2024*

This document is available in English,
and in other languages and formats on request.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg, ac
mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.

# Bwrdeistref Sirol Caerffili

# Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd

# 2020 – 2035

# EB1

# Asesiad o'r Opsiynau Strategaeth

# Ionawr 2025

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Ddogfen Sylfaen Dystiolaeth hon, sy'n cynnwys 'Asesiad o'r Opsiynau Strategaeth', yn un o nifer o ddogfennau cefndir a baratowyd fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi proses ymgynghori Cyn-adneuo yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd.

1.2 Paratowyd y papur hwn i ddarparu gwybodaeth gefndir ar gyfer yr opsiynau strategaeth gofodol sy'n cael eu hystyried ar gyfer yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd. Nodir lefel y twf y dylai'r cynllun ddarparu ar ei gyfer ym Mhapur Tystiolaeth Opsiynau Twf Poblogaeth a Thai (EB4), sy'n darparu'r dystiolaeth i gefnogi'r angen am 6,750 o anheddau newydd dros gyfnod y cynllun (450 o anheddau y flwyddyn) a'r Papur Tystiolaeth Cefndir Cyflogaeth (EB15), sy'n nodi bod angen dyrannu tua 45 Ha o dir cyflogaeth newydd dros gyfnod y cynllun. Ystyrir yr opsiynau gofodol ar gyfer dosbarthu'r twf hwn yn y papur cefndir hwn.

1.3 Mae Adran 2 y papur hwn yn amlinellu'r cyd-destun polisi a'r prif ystyriaethau wrth bennu opsiynau gofodol realistig ar gyfer yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd.

1.4 Mae Adran 3 yn nodi chwe opsiwn gofodol sydd wedi cael eu hystyried, gan edrych pa mor gydnaws yw pob un o'r opsiynau hyn â'r polisi strategol a pha mor realistig ydynt. Mae'r chwe Opsiwn Gofodol fel a ganlyn:

- Opsiwn Gofodol 1: Parhau â Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig
- Opsiwn Gofodol 2: Canolbwyntio ar Flaenau'r Cymoedd
- Opsiwn Gofodol 3: Prif Safle Strategol

- Opsiwn Gofodol 4: Canolbwyntio ar Fuddsoddiad yn y Metro
- Opsiwn Gofodol 5: Canolbwyntio ar Ganol Trefi
- Opsiwn Gofodol 6: Canolbwyntio ar Fasn Caerffili

1.5 Mae'r chwe opsiwn gofodol amgen yn darparu senarios datblygu gofodol sy'n amlwg yn wahanol mewn cysylltiad â datblygu tai a chyflogaeth newydd yn y dyfodol; bydd pob un ohonynt yn arwain at ganlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd gwahanol i Fwrdeistref Sirol Caerffili hyd at 2035.

1.6 Cafodd y chwe opsiwn eu hystyried gan randdeiliaid amrywiol, a nodir barn y rhanddeiliaid am bob un o'r opsiynau hyn fel rhan o'r dadansoddiad o bob opsiwn.

1.7 Mae'r papur yn cloi trwy nodi prif elfennau'r opsiynau strategaeth y dylid eu datblygu mewn Strategaeth a Ffefrir.

# 2. Cyd-destun Polisi

2.1 Ceir dadansoddiad manwl o'r polisïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sy'n dylanwadu ar ddatblygiad y Strategaeth a Ffefrir yn y ddogfen Strategaeth a Ffefrir. Fodd bynnag, dylid cydnabod y dogfennau a ganlyn fel rhai sy'n dylanwadu ar ddatblygiad opsiynau strategaeth.

## Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12)

2.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi ei bod yn ofynnol i gynlluniau datblygu gynnwys strategaeth ofodol ar gyfer oes y cynllun. Dylai hyn ystyried nifer y cartrefi a ddarperir, y cyfleoedd swyddi a ddisgwylir a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar gyfer y twf disgwyliedig. Dylai hefyd geisio lleihau'r angen i deithio, lleihau dibyniaeth ar geir preifat a chynyddu cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

2.3 Wrth ddatblygu strategaethau gofodol, rhaid rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio tir addas a chynaliadwy sydd wedi'i ddatblygu o'r blaen a/neu dir sy'n cael ei danddefnyddio ar gyfer pob math o ddatblygiad.

2.4 Dylai strategaethau gofodol fod yn gyson â'r prif egwyddorion cynllunio a dylent gyfrannu tuag at Ganlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy.

## Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu (Argraffiad 3)

2.5 Mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu yn nodi bod yn rhaid i'r strategaeth ofodol mewn Cynlluniau Datblygu Lleol "nodi'n glir ble bydd datblygiad yn cael ei leoli yn y dyfodol, a pham a sut y bydd yn cyflawni'r weledigaeth, y materion allweddol a'r amcanion." Rhaid i'r strategaeth ofodol fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o rôl a swyddogaeth lleoedd. Gwnaethpwyd dadansoddiad o rôl a swyddogaeth (EB3 – Dadansoddiad o Rôl, Swyddogaeth a Chynaliadwyedd Aneddiadau), sy'n edrych sut y mae'r prif drefi, canolfannau lleol ac aneddiadau preswyl yn gweithredu, a hefyd yn ystyried rôl yr ardaloedd hyn yn ardal ehangach Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

2.6 Mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu yn nodi bod yn rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ystyried ac asesu nifer o opsiynau realistig ar gyfer gwasgaru datblygiad ar draws ei ardal. Y man cychwyn ar gyfer unrhyw asesiad yw'r cynllun datblygu mabwysiedig a'r opsiynau sy'n cael eu hystyried fel rhan o hynny, ynghyd ag ystyriaeth o dystiolaeth gadarn a fyddai'n cefnogi opsiynau amgen. Mae'r Llawlyfr

yn nodi nifer o ffactorau y dylid eu hystyried wrth asesu opsiynau gofodol, gan gynnwys:

- Dyheadau'r cynllun (ardaloedd adfywio, cyd-destun rhanbarthol ehangach, ac yn y blaen).
- Argaeledd ac addasrwydd safleoedd tir llwyd, yn hytrach na maes glas a thir gwerthfawr o safbwynt amaethyddiaeth, ecoleg a thirwedd.
- Lleihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn cerbydau preifat, trwy'r Cynlluniau Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy a Theithio Llesol.
- Capasiti y seilwaith presennol a'r seilwaith posibl.
- Maint a lleoliad y farchnad a'r tai fforddiadwy sydd eu hangen.
- Maint a lleoliad cyfleoedd cyflogaeth.
- Goblygiadau amgylcheddol, e.e. defnydd o ynni, allyriadau nwyon tŷ gwydr, perygl llifogydd, bioamrywiaeth, seilwaith gwyrdd, adnoddau mwynol a chyflwr y ddaear, gan gynnwys nwy mwyngloddio.
- Ffactorau cymdeithasol a diwylliannol, gan gynnwys ystyriaeth o'r iaith Gymraeg.
- Hygyrchedd, o safbwynt swyddi, siopau a gwasanaethau.
- Deall sut y gall gwahanol ardaloedd marchnad effeithio ar hyfywedd darparu tai preifat a fforddiadwy yn ogystal â seilwaith cysylltiedig i gefnogi lefel y datblygiad a gynigir.
- Gallu safleoedd allweddol a'r strategaeth gyffredinol i gyflawni.
- Strategaethau a blaenoriaethau cenedlaethol, megis datgarboneiddio ac iechyd.

## Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040

2.7 Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi'r fframwaith gofodol 20 mlynedd ar gyfer defnydd tir yng Nghymru, gan roi cyd-destun ar gyfer darparu seilwaith newydd a thwf. Cymru'r Dyfodol yw haen uchaf y cynllun datblygu yng Nghymru, ac mae'n canolbwyntio ar atebion i faterion a heriau ar raddfa genedlaethol. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi ble mae angen twf a seilwaith o bwysigrwydd cenedlaethol a sut y gall y system gynllunio ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol ddarparu hynny. Mae'n rhoi cyfeiriad i Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) ac yn cefnogi'r broses o benderfynu ynglŷn â Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae Cymru'r Dyfodol yn eistedd ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru 11.

2.8 Mae Polisi 1 yng nghynllun Cymru'r Dyfodol yn nodi tair Ardal Dwf Genedlaethol, ac un o'r rhain yw 'Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd', sy'n cynnwys Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ei chyfanrwydd. Ategir hyn gan Bolisi 33, sy'n ymwneud yn benodol ag 'Ardal Dwf Genedlaethol Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd'. Mae'r Polisi'n nodi y dylai CDLlau gydnabod yr Ardal Dwf Genedlaethol fel y ffocws ar gyfer cynnydd tai a thwf economaidd strategol; gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol; gweithgynhyrchu uwch; trafnidiaeth a seilwaith digidol.

2.9 Mae Polisi 2 sy'n ymdrin â 'Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol' yn nodi'r prif egwyddorion creu lleoedd y dylid eu hystyried wrth benderfynu ynglŷn â lleoliad datblygiad newydd. Mae hyn yn cynnwys creu cymysgedd o ddefnyddiau ac amrywiaeth o fathau o dai a deiliadaethau, adeiladu lleoedd cerddedadwy, lle mae cartrefi, cyfleusterau lleol a thrafnidiaeth gyhoeddus o fewn pellter cerdded i'w gilydd, a sicrhau bod datblygiad yn cael ei adeiladu ar ddwyseddau priodol gan ymgorffori seilwaith gwyrdd.

2.10 Mae Cymru'r Dyfodol hefyd yn nodi dull gweithredu sy'n 'Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf' ym Mholisi 6, lle mae'n rhaid lleoli cyfleusterau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus newydd sylweddol yng nghanol trefi a dinasoedd. Mae'r testun ategol ar gyfer y polisi hefyd yn nodi bod canol trefi yn lleoliadau priodol i gartrefi newydd.

2.11 Mae Polisi 7 – 'Darparu Cartrefi Fforddiadwy' – yn nodi y dylai CDLlau ddatblygu fframweithiau polisi cryf sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn cyflenwi tai fforddiadwy. Dylai Awdurdodau Lleol archwilio pob cyfle i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy.

2.12 Mae Polisi 8, sy'n ymdrin â 'Llifogydd', yn cydnabod bod perygl llifogydd yn ffactor sy'n cyfyngu ar ddatblygiad, ac mae rhannau o'r Ardaloedd Twf Cenedlaethol yn dueddol o weld llifogydd. Dylid rhoi blaenoriaeth i leoedd lle nad oes perygl llifogydd mewn Ardaloedd Twf Cenedlaethol.

2.13 Mae Polisi 9 yn amlinellu'r angen i nodi 'Rhwydweithiau Ecolegol a Seilwaith Gwyrdd' a ddylai gael eu diogelu. Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol gynnwys yr ardaloedd hyn a chyfleoedd eraill yn strategaethau a pholisïau eu cynllun datblygu er mwyn hybu a diogelu'r swyddogaethau a'r cyfleoedd y maent yn eu darparu.

2.14 Mae Polisi 12 – 'Cysylltedd Rhanbarthol' – yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol fanteisio ar y cyfleoedd sy'n deillio o'r buddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus wrth gynllunio ar gyfer twf ac adfywio.

2.15 Rhoddir sylw i 'Fetro'r De-ddwyrain' ym Mholisi 36, a nodir ei bod yn ofynnol i CDLlau "gynllunio ar gyfer twf ac adfywio er mwyn achub ar y cyfleoedd sy'n deillio o well cysylltedd rhanbarthol, gan gynnwys nodi cyfleoedd am ddatblygiadau dwysedd uwch, defnydd cymysg a di-gar o amgylch gorsafoedd metro newydd a gwell." Mae'r testun ategol yn cyfeirio at dref Caerffili fel lleoliad "strategol bwysig" ar Fetro'r De-ddwyrain lle caiff adfywio a thwf economaidd cynhwysol, cynaliadwy ei gefnogi.

## Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

2.16 Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnwys y deg awdurdod lleol yn rhanbarth De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys CBS Caerffili. Mae'r awdurdodau lleol hyn yn cydweithio ar brosiectau a chynlluniau ar gyfer yr ardal sy'n ceisio mynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar y rhanbarth cyfan, megis bod heb waith a chysylltiadau trafnidiaeth gwael. Mae'r awdurdodau sy'n ffurfio Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi arwyddo Bargen Ddinesig i ariannu prosiectau sy'n ceisio gwneud y rhanbarth yn fwy cystadleuol yn ystod yr 20 mlynedd nesaf. Bydd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn helpu i hybu twf economaidd trwy wella cysylltiadau trafnidiaeth, cynyddu sgiliau, helpu pobl i gael gwaith a rhoi i fusnesau y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen i dyfu.

2.17 Roedd y Metro yn rhan o Fargen Ddinesig wreiddiol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ac mae tros hanner cyllid y Fargen Ddinesig wedi'i ymrwymo iddo. Caiff y

Metro ei redeg gan Trafnidiaeth Cymru, y cwmni trafnidiaeth cenedlaethol dan ofal Llywodraeth Cymru. Mae’r Metro yn brosiect uchelgeisiol a’i nod yw darparu rhwydwaith integredig o lwybrau teithio llesol, bysiau a rheilffyrdd a fydd yn gwella hygyrchedd ac yn gwneud trafnidiaeth gynaliadwy ym mhob rhan o’r rhanbarth yn haws ac yn gyflymach. Mae’r Metro yn elfen allweddol o bolisi Llywodraeth Cymru, ac mae Cymru’r Dyfodol yn nodi ei bod yn ofynnol i CDLlau gynllunio ar gyfer twf a fydd yn manteisio cymaint ag sy’n bosibl ar gyllid y Metro.

2.18 Mae dau gam o welliannau i’r Metro wedi’u cynnal, gan gynnwys gwelliannau i gledrau a gorsafoedd er mwyn gallu darparu ar gyfer trenau hirach ac amlach ar linell Cwm Rhymni, a disgwylir y bydd y llinell yn cael trenau newydd yn 2023.

2.19 Er bod y ddau gam o welliannau wedi defnyddio’r rhan fwyaf o’r cyllid ar gyfer y Metro, mae nifer fawr o brosiectau ychwanegol wedi’u cyflwyno i gael eu hystyried ar gyfer cyfrannau o gyllid y Metro yn y dyfodol, os bydd cyllid ar gael. Cyfeirir at y prosiectau hyn gyda’i gilydd fel cynlluniau Metro Plus ac mae nifer o gynlluniau yn y Fwrdeistref Sirol wedi’u cynnwys.

## Strategaeth Tai Bwrdeistref Sirol Caerffili: Agenda ar gyfer Newid 2021-2026

2.20 Mae’r Strategaeth Tai yn nodi bwriadau’r Cyngor a’i bartneriaid i gyflawni ystod eang o amcanion yn ymwneud â thai. Mae’r strategaeth yn cynnwys gweledigaeth hirdymor ar gyfer tai yn y fwrdeistref sirol sy’n ymgorffori themâu fforddiadwyedd, cyflenwad, ansawdd, rheolaeth, cynaliadwyedd, gwytnwch ac iechyd a lles. Mae’r weledigaeth yn seiliedig ar 5 blaenoriaeth strategol:

- Creu gwell dewisiadau – pwyslais ar atebion sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn;
- Creu lleoedd gwych i fyw – creu lleoedd cynaliadwy ac addas i fyw ynddynt;
- Creu cymunedau iach a bywiog – darparu cyngor, cefnogaeth ac atebion ar gyfer deiliadaethau o bob math;
- Darparu cartrefi newydd – gwella’r modd y darperir cartrefi newydd;
- Cefnogi anghenion tai arbenigol – cefnogi annibyniaeth a chreu llwybrau cadarnhaol.

2.21 Mae’r Strategaeth Tai yn cydnabod bod diffyg cydbwysedd yn y marchnadoedd tai ar draws y Fwrdeistref Sirol. Nid oes llawer o ddewis o dai ym Mlaenau’r Cymoedd, lle mae’r prisiau’n fwy fforddiadwy, ond mae hyfywedd yn fater sy’n cael effaith sylweddol ar ddarparu cartrefi newydd. Ar y llaw arall, mae Coridorau Cysylltiadau’r Gogledd a’r De wedi llwyddo i ddenu buddsoddiad cyhoeddus a phreifat, sydd wedi amrywio’r stoc dai, ond mae cynnydd ym mhrisiau tai wedi cael effaith negyddol ar fforddiadwyedd ac mae angen tir i adeiladu mwy o dai.

### Asesiad o’r Farchnad Dai Leol

2.22 Cafodd yr Asesiad diweddaraf o’r Farchnad Dai Leol ei gyhoeddi gan y Cyngor ym mis Ebrill 2018. Roedd yr asesiad hwn yn nodi bod angen cyfanswm o 282 uned o dai fforddiadwy y flwyddyn yn ystod y 5 mlynedd nesaf (yn cynnwys trosiant ar gyfer unedau rhent cymdeithasol). Rhennir hyn yn:

- 169 o unedau rhent cymdeithasol; a

- 113 o unedau ar gyfer cynnyrch canolraddol (56 perchnogaeth cartref cost isel a 57 rhent canolraddol).

2.23 Mae’r 169 o unedau rhent cymdeithasol yn cynnwys:

- prinder o 25 uned o dai hygyrch;
- prinder o 315 uned o lety anghenion cyffredinol; a
- gweddill o 171 uned o lety pobl hŷn.

2.24 O ran maint eiddo, yr angen mwyaf o bell ffordd yw’r angen am lety un ystafell wely, yn benodol ar gyfer anghenion cyffredinol.

2.25 Mae’r Asesiad o’r Farchnad Dai Leol yn cynnwys dadansoddiad o’r angen ar lefel ward ac ardal marchnad dai. Mae 4 ardal marchnad dai wedi’u nodi yn y Fwrdeistref Sirol:

- Yn gyffredinol, mae gweddill net mawr o dai rhent cymdeithasol ym Mlaenau’r Cymoedd, yn bennaf oherwydd gormodedd o dai anghenion cyffredinol 2 a 3 gwely a thai pobl hŷn 1 a 2 wely, sydd ar gynlluniau tai gwarchod gan mwyaf. Fodd bynnag, mae prinder sylweddol o dai anghenion cyffredinol 1 gwely yn yr ardal.
- Mae gan Islwyn Isaf weddill net bach o eiddo at ei gilydd, ond nodwyd bod angen tai anghenion cyffredinol 1 gwely.
- Yng Nghoridor Cysylltiadau’r Gogledd mae angen tai wedi’u haddasu o bob maint, ac mae angen mawr am dai anghenion cyffredinol 1 gwely, ac angen llai am dai anghenion cyffredinol 2 a 4 gwely.
- Basn Caerffili sydd â’r angen mwyaf am dai anghenion cyffredinol 1 gwely, ac mae angen tai anghenion cyffredinol 2 a 4 gwely yno hefyd. Fel yn yr ardaloedd eraill, mae mwy na digon o unedau anghenion cyffredinol 3 gwely.

2.26 Mae angen net hefyd am eiddo perchnogaeth cartref cost isel 1, 2 a 4 gwely ym mhob un o’r 4 ardal marchnad dai, ac angen net am eiddo rhent canolraddol ym mhob ardal marchnad, ond fel yn achos perchnogaeth cartref cost isel yr hyn sydd ei angen yw eiddo 1, 2 a 4 gwely ym mhob ardal marchnad, a 3 gwely yng Nghoridor Cysylltiadau’r Gogledd ac Islwyn Isaf.

# 3. Opsiynau Gofodol

3.1 Mae’r adran hon yn nodi prif elfennau’r chwe opsiwn strategaeth, ynghyd â dadansoddiad o sut y mae’r opsiwn strategaeth yn cydymffurfio â’r polisi cenedlaethol. Bydd llawer o gydrannau’r opsiynau gofodol yn gyffredin i bob un o’r strategaethau, yn enwedig rôl a swyddogaeth y prif drefi a chanolfannau lleol a’r angen i sicrhau bod y seilwaith strategol i gefnogi unrhyw ddatblygiad newydd yn addas i’r diben.

3.2 Yn ychwanegol at hyn, bydd angen i bob strategaeth gynnwys polisïau a fydd yn:

- Rhoi sylw i newid hinsawdd ac yn hybu lleihau ac addasu i newid hinsawdd.
- Hybu egwyddorion creu lleoedd wrth graidd datblygiad.

- Hybu trafnidiaeth gynaliadwy a newid dulliau teithio.
- Manteisio ar gyfleoedd i wella seilwaith gwyrdd.

## Opsiwn Strategaeth 1 – Parhau â'r Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig

3.3 Byddai'r opsiwn strategaeth hwn yn gweld y strategaeth sydd wedi'i hamlinellu ar hyn o bryd yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig yn parhau. Mae strategaeth ddatblygu'r CDLl mabwysiedig yn ceisio llywio datblygiad o fewn fframwaith strategol eang sy'n sail i egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r Fwrdeistref Sirol wedi'i rhannu'n dair ardal strategol, pob un â'i pholisi datblygu strategol ei hun. Yr ardaloedd strategol hyn yw Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd, Coridor Cysylltiadau'r Gogledd a Choridor Cysylltiadau'r De.

**Y Prif Gydrannau**

- Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd: Caniatáu ar gyfer cyfleoedd datblygu a thargedu mathau priodol o dwf i safleoedd tir llwyd a maes glas mewn ymateb i rôl a swyddogaeth aneddiadau a mynd i'r afael ag amddifadedd.
- Coridor Cysylltiadau'r Gogledd: Targedu mathau priodol o dwf i safleoedd tir llwyd a maes glas sy'n ystyried swyddogaethau cymdeithasol ac economaidd yr ardal.
- Coridor Cysylltiadau'r De: Targedu mathau priodol o dwf i dir a oedd wedi'i ddatblygu o'r blaen o fewn ffiniau aneddiadau sydd wedi'u diffinio.
- Strategaeth wasgaru sy'n targedu datblygiad ar draws y Fwrdeistref Sirol yn ei chyfanrwydd yn unol â rôl a swyddogaeth aneddiadau.
- Hybu dull gweithredu cytbwys o reoli poblogaeth y dyfodol a thwf economaidd.
- Hybu patrymau aneddiadau sy'n gwneud defnydd effeithlon o adnoddau.
- Lleoli datblygiad newydd yn agos at nodau trafnidiaeth gynaliadwy er mwyn gwella cysylltedd a mynediad at gyfleoedd cyflogaeth ledled y Fwrdeistref Sirol a hybu trafnidiaeth gynaliadwy.
- Lleoli datblygiad newydd yn agos at y prif drefi a chanolfannau lleol er mwyn sicrhau datblygu cynaliadwy.
- Defnyddio tir llwyd cyn tir maes glas lle bo'n briodol ac yn hyfyw.

**Cydnawsedd â'r Polisi Cenedlaethol**

- Nid yw'r opsiwn hwn yn gydnaws â chynllun Cymru'r Dyfodol gan ei fod yn cyfyngu ar dwf yn nhref Caerffili, sy'n cael ei nodi fel lleoliad strategol bwysig ar gyfer twf economaidd cynaliadwy a chynhwysol. Ni fyddai hyn yn gwneud y gorau o fanteision y buddsoddiad sylweddol yn Nhref Caerffili, o safbwynt y Metro, y castell a phrosiectau adfywio eraill.
- Mae'r opsiwn yn hybu twf yn unol â thargedau rhanbarthol ac yn ceisio lleoli datblygiad yn agos at y prif aneddiadau yn unol â Pholisïau 1, 33 a 6 Cymru'r Dyfodol.

- Mae’r opsiwn hwn yn hybu strategaeth twf gwasgaredig sydd at ei gilydd yn gydnaws â chynllun Cymru’r Dyfodol.
- Byddai’r opsiwn hwn yn darparu tai fforddiadwy mewn lleoliadau hygyrch ond ni fyddai’n manteisio ar gyfleoedd i gynyddu’r cyflenwad o dai fforddiadwy yn yr ardal lle mae’r angen mwyaf (Basn Caerffili).
- Mae’r opsiwn hwn yn ceisio gosod creu lle wrth graidd datblygiad a manteisio ar gyfleoedd i wella ecoleg a seilwaith gwyrdd, ac mae’n cydymffurfio â Pholisïau 2 a 9 Cymru’r Dyfodol.
- Trwy leoli datblygiad yn agos at y prif drefi, bydd datblygiad newydd wedi’i leoli yn agos at y prif nodau trafnidiaeth a bydd yn cefnogi newid dulliau teithio a theithio llesol yn unol â Pholisïau 12 a 36 Cymru’r Dyfodol.

**Manteision**

- Mae’r opsiwn hwn yn gwasgaru datblygiad newydd ar draws y Fwrdeistrefi Sirol, gan ddarparu lledaeniad tecach o fuddion ac anfuddiau.
- Yn hybu datblygiad sylweddol yn Ardal Adfywio Blaenau’r Cymoedd er mwyn cynyddu amrywiaeth y stoc dai.
- Yn gwarchod cefn gwlad ym Masn Caerffili oherwydd ei werth cynhenid.

**Anfanteision**

- Nid oes digon o safleoedd hyfyw ac addas i wireddu’r opsiwn hwn, yn enwedig yng Nghoridor Cysylltiadau’r De.
- Roedd y cyfraddau adeiladu tai dan y strategaeth hon yn y CDLl presennol yn gyson is na gofynion y CDLl ac mae pryder y gallai hyn barhau.
- Mae’r opsiwn hwn yn dibynnu llawer ar dir llwyd yng Nghoridor Cysylltiadau’r De lle nad oes llawer o safleoedd tir llwyd hyfyw ac addas.
- Mae’n debyg y bydd angen i Goridor Cysylltiadau’r Gogledd ddarparu ar gyfer lefelau twf sylweddol o hyd.
- Yn rhoi mwy o bwysau ar gefn gwlad yng Nghoridor Cysylltiadau’r Gogledd.
- Nid yw datblygu cyfyngedig ym Masn Caerffili yn darparu modd i gyflawni gwelliannau i’r seilwaith trafnidiaeth.
- Ni fydd llai o ddatblygu ym Masn Caerffili yn mynd i’r afael â’r angen dirfawr am dai fforddiadwy yn y rhan hon o’r Fwrdeistref Sirol.

## Opsiwn Strategaeth 2 – Canolbwyntio ar Ardal Adfywio Blaenau’r Cymoedd

3.4 Mae’r strategaeth hon yn ceisio manteisio ar gyfleoedd datblygu yn Ardal Adfywio Blaenau’r Cymoedd er mwyn hybu twf economaidd, ehangu’r ystod a’r dewis o dai a gwneud y gorau o’r manteision sy’n deillio o’r buddsoddiad mawr mewn cysylltiad â gwelliannau i’r Metro a’r A465.

**Y Prif Gydrannau**

- Targedu datblygiad newydd sylweddol i Ardal Adfywio Blaenau’r Cymoedd i weithredu fel catalydd ar gyfer adfywio.

- Targedu tai ar y farchnad agored i Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd er mwyn rhoi sylw i'r angen i ehangu'r ystod a'r dewis o dai.
- Targedu datblygu cyflogaeth i Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd a'r manteision sy'n deillio o gynlluniau ariannu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru.
- Caniatáu ehangiad trefol aneddiadau, ar safleoedd tir llwyd a maes glas, yng Nghoridorau Cysylltiadau'r Gogledd a'r De ar sail y canlynol:

Lleoli datblygiad newydd ar safleoedd maes glas a thir llwyd yn agos at nodau trafnidiaeth gynaliadwy er mwyn gwella cysylltedd a mynediad at gyfleoedd cyflogaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol a hybu trafnidiaeth gynaliadwy.

Lleoli datblygiad newydd ar safleoedd maes glas a thir llwyd yn agos at y prif drefi a chanolfannau lleol er mwyn sicrhau datblygu cynaliadwy.

Targedu datblygiad i adlewyrchu rôl a swyddogaeth aneddiadau unigol.

Defnyddio safleoedd tir llwyd cyn maes glas lle bo'n briodol ac yn hyfyw.

- Gwneud y gorau o gyfleoedd hamdden ac ymwelwyr sy'n deillio o Barc Rhanbarthol y Cymoedd.
- Darparu llwybr cadernid yr A465 er mwyn sicrhau hygyrchedd parhaus i'r A465.

**Cydnawsedd â'r Polisi Cenedlaethol**

- Mae'r opsiwn hwn yn gydnaws at ei gilydd â'r polisi a chanllawiau cenedlaethol.
- Mae'r opsiwn yn darparu twf yn unol â'r targedau rhanbarthol ac yn ceisio lleoli datblygiad yn agos at y prif aneddiadau yn unol â Pholisïau 1, 33 a 6 Cymru'r Dyfodol.
- Mae'r opsiwn hwn yn darparu tai mewn lleoliadau hygyrch yn unol â Pholisi 7 Cymru'r Dyfodol.
- Mae'r opsiwn hwn yn ceisio rhoi creu lleoedd wrth graidd datblygiad a manteisio ar gyfleoedd i wella ecoleg a seilwaith gwyrdd, ac mae'n cydymffurfio â Pholisïau 2 a 9 Cymru'r Dyfodol.
- Trwy leoli datblygiad yn agos at y prif aneddiadau bydd datblygiad newydd yn cael ei leoli yn agos at y prif nodau trafnidiaeth a bydd yn cefnogi newid dulliau teithio a theithio llesol yn unol â Pholisïau 12 a 36 Cymru'r Dyfodol.

**Manteision**

- Yn hybu datblygu mewn lleoliad â chysylltedd rhagorol â De-orllewin Cymru, Iwerddon a Chanolbarth Lloegr.
- Yn manteisio ar gyfleoedd a datblygu economaidd yn yr ardal hon ar sail y gwelliannau i Ffordd Blaenau'r Cymoedd.
- Yn hybu datblygu mewn ardal lle mae angen adfywio'r economi a datblygu tai ar y farchnad agored er mwyn ehangu'r ystod a'r dewis o dai.
- Yn hybu tai ar y farchnad agored mewn ardal lle mae angen tai ar y farchnad agored.

**Anfanteision**

- Mae gwerth tir isel a phrisiau tai isel yn arwain at broblemau arwyddocaol yn ymwneud â hyfywedd ariannol a chyflawni.
- Nid yw'r opsiwn hwn yn realistig gan na ellid dangos bod datblygiad newydd sylweddol yn cael ei ddarparu yn unol â gofynion y CDLl, gan olygu bod angen i Goridorau Cysylltiadau'r Gogledd a'r De ddarparu ar gyfer y rhan fwyaf os nad y cyfan o'r datblygiadau newydd i wneud iawn, sy'n strategaeth hollol wahanol.
- Mae'r angen i ddarparu tai ar y farchnad agored yn yr ardal ffocws yn golygu bod y potensial ar gyfer darparu tai fforddiadwy yn gyffredinol yn cael ei leihau.
- Gyda'r strategaeth hon byddai angen darparu llwybr cadernid arfaethedig yr A469 fel rhan annatod o'r strategaeth a byddai'r gost yn sylweddol.

## Opsiwn Strategaeth 3 – Prif Safle Strategol

3.5 Byddai'r opsiwn strategaeth hwn yn gweld safle strategol yn cael ei ddyrannu ym Maesycwmer, yng Nghoridor y Cymoedd Canol, i ddarparu ar gyfer cyfran sylweddol o'r datblygiadau tai newydd, ynghyd â datblygu ffordd fynediad a gwell cyswllt trafnidiaeth strategol. Byddai datblygiad newydd ychwanegol yn canolbwyntio'n bennaf ar ardaloedd Coed-duon Fwyaf ac Ystrad Mynach Fwyaf, ynghyd a Chymoedd Sirhywi ac Ebwy Isaf, ar safleoedd cynaliadwy y mae cysylltiad da rhyngddynt â chyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus a'r rhwydwaith rheilffyrdd.

**Y Prif Gydrannau**

- Dyrannu safle strategol ym Mharc Gwernau, Maesycwmer, a allai ddarparu ar gyfer datblygiad defnydd cymysg.
- Bydd safleoedd tai ychwanegol a chyflogaeth newydd yn canolbwyntio ar y Cymoedd Canol a Chymoedd Sirhywi ac Ebwy Isaf ar sail y canlynol:

Lleoli datblygiad newydd ar safleoedd maes glas a thir llwyd yn agos at nodau trafnidiaeth gynaliadwy er mwyn gwella cysylltedd a mynediad at gyfleoedd cyflogaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol a hybu trafnidiaeth gynaliadwy.

Lleoli datblygiad newydd ar safleoedd maes glas a thir llwyd yn agos at y prif drefi a chanolfannau lleol er mwyn sicrhau datblygiad cynaliadwy.

Targedu datblygiad i adlewyrchu rôl a swyddogaeth aneddiadau unigol.

Defnyddio safleoedd tir llwyd cyn maes glas lle bo'n briodol ac yn hyfyw.

- Datblygu newydd cyfyngedig ym Masn Caerffili yn canolbwyntio ar dir wedi'i ddatblygu o'r blaen a thir sy'n cael ei danddefnyddio yn yr aneddiadau presennol.
- Lleihau maint a nifer y dyraniadau tai newydd yn Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd i fod yn gydnaws â gweithgareddau'r farchnad a'r galw yn y farchnad.
- Hybu cyfleoedd adfywio ar draws y Fwrdeistref Sirol.

- Gwella'r rhwydwaith priffyrdd strategol, gan gynnwys creu cyswllt priffyrdd strategol i gysylltu Parc Gwernau â'r ardal ehangach a lleihau tagfeydd ar yr A472.

**Safle Strategol**

- Datblygu defnydd cymysg yn ymgorffori hyd at 2,700 o anheddau, â hyd at 1,200 o'r anheddau hyn yn cael eu darparu yng nghyfnod y cynllun hyd at 2035.
- Cadw Gwesty a Chyfleusterau Hamdden Bryn Meadows.
- O fewn pellter cerdded a beicio o Orsaf Hengoed a chanol Ystrad Mynach ac wedi'i leoli ar Gyswllt Cludiant Cyflym arfaethedig y Cymoedd Canol ar yr A472.
- Bydd angen ffordd fynediad newydd i wasanaethu'r datblygiad er mwyn lleihau tagfeydd.
- O fewn pellter o 20 munud ar feic o gyfleoedd cyflogaeth a hamdden.

**Cydnawsedd â'r Polisi Cenedlaethol**

- Mae'r opsiwn hwn yn gydnaws at ei gilydd â'r polisi a'r canllawiau cenedlaethol.
- Mae'n bosibl nad yw'r opsiwn hwn yn cydymffurfio ag un elfen o gynllun Cymru'r Dyfodol h.y. Polisi 36 sy'n nodi tref Caerffili fel lleoliad strategol bwysig a ffocws ar gyfer datblygu economaidd cynaliadwy ac adfywio.
- Mae darparu'r ffordd fynediad newydd yn cydymffurfio â chynllun Cymru'r Dyfodol gan ei fod yn ceisio lleihau tagfeydd ac amseroedd siwrneiau, a nodwyd fel gofynion polisi dan Bolisi 11.
- Mae'r opsiwn hwn yn ceisio rhoi creu lleoedd wrth graidd datblygu a gwneud y gorau o gyfleoedd i wella ecoleg a seilwaith gwyrdd ac mae'n cydymffurfio â Pholisïau 2 a 9 Cymru'r Dyfodol.
- Mae'r opsiwn strategaeth hwn yn cydymffurfio'n dda â Pholisïau Cymru'r Dyfodol:

6 (canol trefi yn gyntaf) – trwy leoli dyraniadau newydd o fewn pellter beicio o 20 munud o ganol trefi,

7 (darparu cartrefi) trwy ddarparu anheddau ar y farchnad agored ac anheddau fforddiadwy i ddiwallu angen,

12 (cysylltedd rhanbarthol) a'r rhan fwyaf o bolisi 36 trwy leoli dyraniadau newydd o fewn pellter beicio o 20 munud o orsafoedd rheilffordd.

**Manteision**

- Mae digon o dir yn debygol o fod ar gael i gyflawni'r opsiwn strategaeth hwn, felly ystyrir ei fod yn realistig.
- Mae galw yn y farchnad am ddatblygiad yn yr ardal strategaeth hon a dangoswyd trwy'r CDLl mabwysiedig bod datblygiadau tai yn hyfyw ac yn gyflawnadwy yn yr ardal ehangach, er bod heriau ar safleoedd penodol.

- Bydd safle strategol Parc Gwernau yn hwyluso datblygu cyswllt priffyrdd strategol a fydd, yn ogystal â darparu mynediad i'r safle, yn hwyluso gwelliannau ffordd i fan lle mae llawer o dagfeydd ar yr A472 ym Maesycwmer ac yn gwella cysylltiadau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus ar gyffordd allweddol yr A469/A472.
- Bydd dyrannu safleoedd ychwanegol yn y Cymoedd Canol a Chymoedd Ebwy a Sirhywi Isaf yn hwyluso'r gwaith o ddarparu tai fforddiadwy mewn ardaloedd lle mae lefelau angen yn uchel.
- Gan fod cyfran sylweddol o'r dyraniadau cyflogaeth newydd a'r stadau diwydiannol presennol wedi'u lleoli yn y Cymoedd Canol, byddai'r ffocws ar ddatblygiad tai newydd yn yr ardal hon yn gydnaws iawn â'r crynodiad o gyfleoedd swyddi, gan leihau'r angen i deithio.
- Bydd nodi safle strategol a thwf tai ychwanegol yn y Cymoedd Canol yn golygu y bydd cyfran sylweddol o'r tai cyffredinol sydd eu hangen yn cael eu darparu yn ardal y cymoedd canol, gan annog buddsoddiad a fydd yn cael effaith ar y Fwrdeistref Sirol yn ei chyfanrwydd.
- Bydd y broses o ddewis safleoedd dan yr opsiwn strategaeth hwn yn ffafrio safleoedd sydd â chysylltiadau da ag opsiynau teithio cynaliadwy, a fydd yn unol â'r egwyddorion creu lle strategol a'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer cynllunio, fel y nodir yng nghynllun Cymru'r Dyfodol.
- Yn gwarchod cefn gwlad Basn Caerffili oherwydd ei werth cynhenid.

**Anfanteision**

- Bydd cyfran sylweddol o'r holl dai sydd eu hangen yn cael eu darparu trwy un safle strategol, a fydd yn ymestyn y tu hwnt i gyfnod yr Ail CDLl Newydd. Bydd unrhyw oedi sylweddol cyn darparu'r seilwaith a'r tai yn arwain at oblygiadau i'r trywydd tai ac i'r gwaith o weithredu'r Ail CDLl Newydd.
- Ni fydd llai o ddatblygu ym Masn Caerffili yn mynd i'r afael â'r angen mawr am dai fforddiadwy yn y rhan hon o'r Fwrdeistref Sirol.
- Bydd y dull strategaeth ar gyfer Basn Caerffili hefyd yn arwain at ostyngiad sylweddol mewn cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth newydd yn y rhan hon o'r Fwrdeistref Sirol, lle nodwyd bod angen rhagor o dir cyflogaeth.
- Trwy leihau maint a nifer y safleoedd tai ym Mlaenau'r Cymoedd, bydd hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i amrywio'r stoc dai.
- Bydd nodi safle strategol a thwf tai ychwanegol yn y Cymoedd Canol yn golygu y bydd cyfran sylweddol o'r holl dai sydd eu hangen yn cael eu lleoli yn ardal y Cymoedd Canol, sy'n rhoi mwy o bwysau ar gefn gwlad.

## Opsiwn Strategaeth 4 – Canolbwyntio ar Fuddsoddiad yn y Metro

3.6 Er mwyn gwneud y gorau o fanteision y buddsoddiad yn y Metro, mae'r strategaeth hon yn ceisio lleoli datblygiad o fewn ac o amgylch nodau trafnidiaeth gyhoeddus allweddol, sy'n cynnwys y gorsafoedd rheilffordd ar hyd Llinellau Rheilffordd Rhymni a Chwm Ebwy a'r prif orsafoedd bysiau yng Nghoed-duon a Nelson.

**Y Prif Gydrannau**

- Targedu datblygiad newydd i ardal o fewn pellter beicio o 20 munud o'r prif nodau trafnidiaeth er mwyn:

Lleihau dibyniaeth ar geir preifat.

Hybu newid dulliau teithio i gyfrannu tuag at darged Llywodraeth Cymru ar gyfer newid dulliau teithio.

Hybu teithio llesol ar gyfer siwrneiau byrrach.

Lleihau tagfeydd, cyfrannu tuag at ddatgarboneiddio a gwella ansawdd aer.

- Targedu datblygiad newydd tuag at safleoedd o fewn pellter beicio o 20 munud o orsafoedd bysiau Coed-duon a Nelson.
- Archwilio cyfleoedd i wella'r rhwydwaith rheilffyrdd strategol er mwyn hwyluso'r gwaith o ddarparu gorsafoedd yng Nghrymlyn a Nelson ynghyd ag ailagor llinellau rheilffordd Cwm Bargod a Chaerffili-Casnewydd i wasanaethau teithwyr.

**Cynyddu hygyrchedd trwy well cyfleoedd teithio llesol.**

- Hybu'r newid i gerbydau allyriadau isel iawn trwy gynyddu mynediad at bwyntiau gwefru.
- Mynd i'r afael â'r angen am dai yn yr ardaloedd sy'n cael eu gwasanaethu orau gan drafnidiaeth gynaliadwy.
- Hyrwyddo patrymau aneddiadau sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon.
- Bydd yr opsiwn hwn yn nodi safleoedd ar sail y canlynol:

Lleoli datblygiad newydd ar safleoedd maes glas a thir llwyd yn agos at nodau trafnidiaeth gynaliadwy er mwyn gwella cysylltedd a mynediad at gyfleoedd cyflogaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol a hybu trafnidiaeth gynaliadwy.

Lleoli datblygiad newydd ar safleoedd maes glas a thir llwyd yn agos at y prif drefi a chanolfannau lleol er mwyn sicrhau datblygu cynaliadwy.

Targedu datblygiad i adlewyrchu rôl a swyddogaeth aneddiadau unigol

Defnyddio safleoedd tir llwyd cyn safleoedd maes glas lle bo'n briodol ac yn hyfyw.

**Cydnawsedd â'r Polisi Cenedlaethol**

- Mae'r opsiwn hwn yn gydnaws at ei gilydd â'r polisi a'r canllawiau cenedlaethol.
- Bydd yr opsiwn hwn yn lleoli datblygiad newydd ym Masn Caerffili a fydd yn gydnaws â Pholisïau 1 a 26 Cymru'r Dyfodol. Os bydd datblygu yn gyfyngedig yng Nghaerffili mae'n bosibl na fydd yr opsiwn hwn yn gydnaws â'r polisi sy'n nodi Caerffili fel lleoliad strategol bwysig ar gyfer twf economaidd cynaliadwy ac adfywio.
- Mae'r opsiwn hwn yn gydnaws â Pholisi 6 Cymru'r Dyfodol gan y bydd yn lleoli datblygiad yn agos at y prif ganolfannau.

- Mae’r opsiwn hwn hefyd yn gydnaws â Pholisi 7 Cymru’r Dyfodol gan ei fod yn darparu tai mewn ardaloedd lle mae eu hangen.
- Mae’r opsiwn hwn yn cyflawni Polisi 12 Cymru’r Dyfodol yn uniongyrchol gan ei fod yn canolbwyntio ar hybu teithio llesol, a thrafnidiaeth rheilffyrdd, bysiau a cherbydau allyriadau isel iawn.
- Mae’r opsiwn hwn yn cyflawni Polisi 36 Cymru’r Dyfodol yn uniongyrchol gan ei fod yn ceisio lleoli datblygiad yn agos at nodau’r Metro er mwyn gwneud y gorau o fanteision y buddsoddiad yn y Metro.
- Bydd yr opsiwn hwn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gyflawni newid o 45% mewn dulliau teithio fel y nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021.

Manteision

- Mae digon o dir ar gael i gyflawni’r opsiwn strategaeth hwn.
- Mae nifer o safleoedd mawr o fewn ac o amgylch y prif nodau trafnidiaeth a all ddarparu manteision.
- Mae safleoedd sy’n cynnig y potensial ar gyfer datblygiad dwysedd uwch, defnydd cymysg a di-gar o amgylch gorsafoedd metro.
- Byddai’r strategaeth yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at darged Llywodraeth Cymru o newid o 45% mewn dulliau teithio.
- Byddai’r dull gweithredu yn cynyddu hygyrchedd ac yn sicrhau cymaint ag sy’n bosibl o gyfleoedd ar gyfer Teithio Llesol.
- Mynd i’r afael â’r angen am dai yn yr ardaloedd sy’n cael eu gwasanaethu orau gan drafnidiaeth gyhoeddus.

Anfanteision

- Gan fod y dull gweithredu hwn yn targedu’r prif nodau trafnidiaeth, mae rhai cymunedau yn debygol o ddarparu ar gyfer lefelau uwch o ddatblygiad na’i gilydd.
- Efallai y  bydd pwyslais yr opsiwn hwn ar drafnidiaeth gynaliadwy yn golygu ei bod yn anodd mynd i’r afael â materion tagfeydd ym Maesycwmer a Basn Caerffili sy’n effeithio ar deithio mewn bysiau a defnyddio cerbydau allyriadau isel iawn.
- Potensial i roi mwy o bwysau ar fannau agored trefol pwysig a hynny o bosibl yn lleihau mannau o’r fath yn yr aneddiadau sy’n bodoli’n barod.

## Opsiwn Strategaeth 5 –  Canolbwyntio ar Ganol Trefi

3.7 Byddai’r opsiwn strategaeth hwn yn canolbwyntio ar ddatblygiad newydd yn agos at brif drefi Caerffili, Ystrad Mynach, Coed-duon Rhisga/Pontymister a Bargod a chanolfannau lleol Bedwas, Trecelyn, Nelson a Rhymni, ac agosrwydd at un o’r canolfannau fyddai’r brif ystyriaeth wrth ddyrannu safleoedd newydd.

**Y Prif Gydrannau**

- Bydd yr opsiwn hwn yn nodi safleoedd ar dir llwyd a maes glas yn agos at y prif drefi a chanolfannau lleol er mwyn sicrhau datblygu cynaliadwy.
- Defnyddio dull dilyniannol o ddewis safleoedd a fydd yn ceisio:

nodi datblygiad newydd yn agos at brif drefi yn gyntaf yna canolfannau lleol, a

nodi datblygiad newydd o fewn pellter cerdded o 20 munud o ganolfannau yna o fewn y pellter beicio o 20 munud.

- Mynd i'r afael â'r angen am dai mewn ardaloedd yn agos at wasanaethau a chyfleusterau.
- Hybu patrymau aneddiadau sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon.
- Hybu trafnidiaeth gynaliadwy trwy:

Sicrhau cymaint ag sy'n bosibl o gyfleoedd ar gyfer newid dulliau teithio er mwyn cyfrannu tuag at darged Llywodraeth Cymru o 45%.

Hybu teithio llesol ar gyfer teithiau byr.

**Cydnawsedd â'r Polisi Cenedlaethol**

- Mae'r opsiwn hwn yn gydnaws at ei gilydd â'r polisi a'r canllawiau cenedlaethol.
- Mae'r opsiwn yn hybu twf yn unol â'r targedau rhanbarthol ac yn ceisio lleoli datblygiad yn agos at y prif aneddiadau yn unol â Pholisïau 1, 33 a 6 Cymru'r Dyfodol.
- Mae'r opsiwn hwn yn darparu tai mewn lleoliadau hygyrch yn unol â Pholisi 7 Cymru'r Dyfodol.
- Mae'r opsiwn hwn yn ceisio rhoi creu lleoedd wrth graidd datblygu a gwneud y gorau o gyfleoedd i wella ecoleg a seilwaith gwyrdd ac mae'n cydymffurfio â Pholisïau 2 a 9 Cymru'r Dyfodol.
- Trwy leoli datblygiad yn agos at y prif aneddiadau bydd datblygiad newydd yn cael ei leoli yn agos at y prif nodau trafnidiaeth a bydd yn cefnogi newid dulliau teithio a theithio llesol yn unol â Pholisïau 12 a 36 Cymru'r Dyfodol.

**Manteision**

- Creu amgylcheddau canol tref cynaliadwy yn cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau ategol a chyd-ddibynnol, gan gynnwys tai, cyfleusterau cymunedol, a lle bo'n briodol, cyflogaeth, yn ogystal â manwerthu a hamdden masnachol.
- Lleihau'r angen i deithio trwy gyd-leoli tai, seilwaith a gwasanaethau, a chynyddu'r potensial i wireddu manteision Teithio Llesol.
- Lleoli datblygiad ar y cyd â hybiau trafnidiaeth lle mae'r rhain yn gysylltiedig â lleoliadau yng nghanol trefi, gan alluogi mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.
- Gwella cysylltedd mewn cysylltiad ag amgylcheddau canol tref, a'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ynddynt.
- Ailddefnyddio safleoedd ac eiddo gwag neu sy'n cael eu tanddefnyddio yng nghanol trefi a gwneud gwaith ailddatblygu os oes angen – byddai angen ymyriad gan y sector cyhoeddus a chydweithrediad rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat ar gyfer hyn.

**Anfanteision**

- Ni fyddai safleoedd canol tref o reidrwydd yn gydnaws â nodau trafnidiaeth sydd wedi'u lleoli mewn lleoedd eraill e.e. gorsafoedd ar rwydwaith y Metro.
- Posibilrwydd y byddai safleoedd cynaliadwy sydd wedi'u lleoli mewn lleoedd eraill yn cael eu diystyru.
- Byddai ailddefnyddio/ailddatblygu safleoedd ac eiddo sy'n wag neu'n cael eu tanddefnyddio yn debygol o arwain at gostau i'r sector cyhoeddus.

## Opsiwn Strategaeth 6 – Canolbwyntio ar Fasn Caerffili

3.8 Mae'r strategaeth hon yn ceisio gwneud y gorau o gyfleoedd datblygu yng Nghoridor Cysylltiadau'r De er mwyn hybu twf economaidd a gwneud y gorau o fanteision y buddsoddiad sylweddol i adfywio tref Caerffili.

**Y Prif Gydrannau**

- Targedu datblygiad newydd sylweddol ar safleoedd tir llwyd a maes glas tuag at Fasn Caerffili a Chymoedd Ebwy a Sirhywi Isaf er mwyn hybu twf economaidd ac adfywio.
- Targedu datblygu cyflogaeth tuag at Goridor Cysylltiadau'r De er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd a'r manteision sy'n codi o fod yn agos at Gaerdydd a Chasnewydd a chynlluniau ariannu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru.
- Darparu ar gyfer ehangiad trefol aneddiadau yng Nghoridor Cysylltiadau'r Gogledd ac Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd, ar sail y canlynol;

Lleoli datblygiad newydd ar safleoedd maes glas a thir llwyd yn agos at nodau trafnidiaeth gynaliadwy er mwyn gwella cysylltedd a mynediad at gyfleoedd cyflogaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol a hybu trafnidiaeth gynaliadwy.

Lleoli datblygiad newydd ar safleoedd maes glas a thir llwyd yn agos at y prif drefi a chanolfannau lleol er mwyn sicrhau datblygu cynaliadwy.

Targedu datblygiad i adlewyrchu rôl a swyddogaeth aneddiadau unigol

Defnyddio safleoedd tir llwyd cyn rhai maes glas lle bo'n briodol ac yn hyfyw.

- Hybu ailsefydlu cyn linell rheilffordd Caerffili-Machen-Casnewydd ar gyfer cludo teithwyr;
- Manteisio ar gyfleoedd a gynigir gan Gastell Caerffili a nodi safleoedd sy'n addas ar gyfer twristiaeth, adloniant a hamdden.
- Lleihau maint a nifer y dyraniadau tai newydd yn Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd yn unol â gweithgareddau'r farchnad a'r galw yn y farchnad.

**Cydnawsedd â'r Polisi Cenedlaethol**

- Mae'r opsiwn hwn yn cydymffurfio'n dda â pholisi a chanllawiau cenedlaethol.
- Mae'r opsiwn yn hybu twf yn unol â'r targedau rhanbarthol ac yn ceisio lleoli datblygiad yn agos at y prif aneddiadau yn unol â Pholisïau 1, 33 a 6 Cymru'r Dyfodol.
- Mae'r opsiwn hwn yn hybu twf tref Caerffili sy'n uniongyrchol gydnaws â nodi Caerffili fel lleoliad strategol bwysig a thwf economaidd cynhwysol yng nghynllun Cymru'r Dyfodol.

- Mae’r opsiwn hwn yn darparu tai mewn lleoliadau hygyrch, gan gynnwys ardal sydd wedi’i nodi fel lleoliad allweddol, yn unol â Pholisi 7 Cymru’r Dyfodol.
- Mae’r opsiwn hwn yn ceisio rhoi creu lleoedd wrth graidd datblygu a sicrhau cymaint ag sy’n bosibl o gyfleoedd i wella ecoleg a seilwaith gwyrdd ac yn cydymffurfio â Pholisïau 2 a 9 Cymru’r Dyfodol.
- Trwy leoli datblygiad yn agos at y prif drefi, bydd datblygiad newydd yn cael ei leoli yn agos at y prif nodau trafnidiaeth a bydd yn cefnogi newid dulliau teithio a theithio llesol yn unol â Pholisïau 12 a 36 Cymru’r Dyfodol.

**Manteision**

- Yn canolbwyntio twf mewn ardal a nodwyd fel lleoliad strategol ar gyfer twf o’r fath.
- Yn hybu datblygiad yn agos at Gyfnewidfa Caerffili sy’n destun buddsoddiad sylweddol.
- Byddai’n darparu tai fforddiadwy yn yr ardal lle mae’r angen mwyaf.
- Yn hybu trafnidiaeth gynaliadwy a newid dulliau teithio trwy leoli datblygiad yn agos at nodau trafnidiaeth gyhoeddus.
- Yn lleihau’r pwysau datblygu ar Goridor y Cymoedd Canol i ddarparu ar gyfer twf.

**Anfanteision**

- Yn canolbwyntio datblygiad mewn ardal sydd dan bwysau datblygu sylweddol.
- Byddai’r angen i nodi tir cyflogaeth ym Masn Caerffili ynghyd â thir ar gyfer tai yn cynyddu’r defnydd o safleoedd maes glas yn y Fasn.
- Ni fyddai’n mynd i’r afael ag adfywio Ardal Adfywio Blaenau’r Cymoedd.
- Gallai effeithio ar werth cynhenid cefn gwlad ym Masn Caerffili.

# 4. Ymgysylltu ynglŷn â’r Opsiynau Strategaeth

4.1 Er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer y broses o ddatblygu’r opsiynau strategaeth, cynhaliwyd dwy set o seminarau. Cynlluniwyd y gyfres gyntaf o seminarau, a gynhaliwyd yn Nhachwedd/Rhagfyr, ar ‘Darparu ar gyfer Twf’, er mwyn rhannu gwybodaeth ac amlinellu’r sefyllfa gyffredinol a materion yn gysylltiedig â datblygu dull strategol o gyflawni gofynion tir y CDLl ar draws y Fwrdeistref Sirol. Nod y seminarau hyn oedd ysgogi trafodaeth ynglŷn â’r materion a oedd yn gysylltiedig â’r broses.

4.2 Cynlluniwyd yr ail gyfres o seminarau ar ‘Strategaethau Amgen’ er mwyn adeiladu ar y trafodaethau yn y seminarau ‘Darparu ar gyfer Twf’. Cyflwynwyd chwe opsiwn strategaeth posibl i’r cyfranogwyr gan arwain at drafodaeth yn cael ei hwyluso ar fanteision ac anfanteision pob opsiwn a pha mor realistig oedd pob opsiwn.

Cyfres Seminarau Darparu ar gyfer Twf

4.3 Cynhaliwyd cyfanswm o 8 seminar gydag ystod o randdeiliaid mewnol ac allanol, aelodau etholedig, cynghorwyr cymuned a phobl ifanc, fel y nodir isod.

| Seminarau | Nifer y Seminarau | Dyddiadau | Cyfanswm yn Bresennol |
|---|---|---|---|
| Grŵp Swyddogion | 1 | 6 Rhagfyr 2021 | 15 |
| Grŵp Rhanddeiliaid | 2 | 16 Tachwedd 2021<br>23 Tachwedd 2021 | 25 |
| Aelodau Etholedig a Chynghorwyr Cymuned | 4 | 25 Tachwedd 2021<br>1 Rhagfyr 2021<br>6 Rhagfyr 2021<br>14 Rhagfyr 2021 | 43 o aelodau etholedig, 4 cynghorydd cymuned |
| Fforwm Ieuenctid | 1 | 17 Tachwedd 2021 | 9 person ifanc, 2 weithiwr ieuenctid |

4.4 Oherwydd cyfyngiadau Covid-19, cynhaliwyd y cyfarfodydd swyddogion, rhanddeiliaid ac aelodau etholedig trwy Microsoft Teams. Gan fod nifer y cyfranogwyr yn llai, cynhaliwyd y Fforwm Ieuenctid fel gweithdy wyneb yn wyneb.

4.5 Roedd rhan gyntaf y seminar yn nodi'r cefndir ar gyfer y drafodaeth, gan amlinellu tri opsiwn strategaeth posibl ar gyfer gwasgaru safleoedd. Roedd hyn yn cynnwys egluro safbwynt y strategaeth bresennol a llwyddiannau a heriau'r CDLl mabwysiedig presennol. Eglurwyd yr opsiynau twf, a oedd wedi'u cytuno'n barod ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn seminarau blaenorol, ac amlinellwyd y gofynion tir y byddai angen i'r Ail CDLl Newydd ddarparu ar eu cyfer. Defnyddiwyd 3 rhan nesaf y seminar i amlinellu'r tri opsiwn gofodol ar gyfer y posibilrwydd o wasgaru gofynion tir y CDLl:

**Opsiwn 1: Gwasgaru**

4.6 Mae'r opsiwn hwn yn dosbarthu gofynion y CDLl yn gyfartal ac yn deg ar draws y Fwrdeistref Sirol fel bod effeithiau a manteision datblygu yn cael eu taenu'n gyfartal ar draws y cymunedau.

4.7 Mae mwy nag un sail dros ystyried sut y gellir dosbarthu datblygiad yn deg a defnyddiwyd 2 o'r opsiynau hyn fel enghreifftiau. Roedd y cyntaf yn cymryd 5 ardal y prif gynllun ac yn rhannu'r gofynion tai a chyflogaeth yn gyfartal rhwng yr ardaloedd (dosbarthiad cyfartal o ran gofod). Roedd yr ail yn defnyddio'r un ardaloedd â'r prif gynllun ond yn dosbarthu gofynion y CDLl pro rata ar sail cyfran o'r boblogaeth ym mhob ardal (effaith gyfartal ar bobl).

4.8 Y prif faterion a godwyd gan y cyfranogwyr oedd:

- Mae rhannu datblygiad ym gymesur â'r boblogaeth yn ymddangos yn aneffeithiol gan ei fod yn anwybyddu'r angen i gael y dewis o safle yn iawn.
- Ni ddylid gordanysgrifio mewn ardaloedd lle na fydd datblygiad yn digwydd.

**Opsiwn 2: Aneddiadau wedi'u Targedu**

4.9 Mae'r dull gweithredu hwn yn ceisio dyrannu tir mewn lleoliadau penodol er mwyn cyflawni nod neu ddyhead polisi. Defnyddiwyd dwy enghraifft eto i ddangos hyn, gan ddefnyddio dwy sail polisi yn deillio o bolisïau Cymru'r Dyfodol, sef:

- Dyrannu safleoedd yn agos at y prif bwyntiau Metro er mwyn gwneud y gorau o fanteision gwelliannau'r Metro (yn canolbwyntio ar y rheilffordd).

- Dyrannu safleoedd yn agos at y prif aneddiadau yn yr hierarchaeth aneddiadau er mwyn sicrhau datblygiad yn y prif ddinasoedd a threfi a dull gweithredu canol trefi yn gyntaf.

4.10 Prif oblygiadau'r opsiwn hwn yw y gall rhai aneddiadau fod y tu allan i'r cwmpas ar gyfer dyraniadau gan ddibynnu ar y ffocws polisi a ddewiswyd. Yn achos y ddwy enghraifft, y prif fater yw nad yw Coed-duon ar linell rheilffordd felly mae'n cael ei hepgor o'r dull sy'n canolbwyntio ar y rheilffyrdd, ond yn cael ei gynnwys yn yr ail un. Arweiniodd hepgor Coed-duon at drafodaeth ynglŷn ag integreiddio Coed-duon yn fwy uniongyrchol yn rhwydwaith y Metro.

4.11 Cynhyrchodd yr opsiwn hwn fwy o drafodaeth a'r prif faterion a godwyd oedd:

- Mae'r cysylltiadau teithio a ddangosir yn rhai gogledd/de gan eu bod i gyd yn seiliedig ar y rheilffyrdd. Byddai'n gamarweiniol i ddibynnu ar y rhain yn unig ac anwybyddu cysylltiadau dwyrain-gorllewin sydd wedi'u sefydlu'n dda.
- Angen i ddarparu hamdden a seilwaith gwyrdd.
- Mae llifogydd yn bryder.
- Angen i wella cysylltiadau trafnidiaeth a datblygu Blaenau'r Cymoedd.

**Opsiwn 3: Safleoedd Strategol neu Allweddol**

4.12 Mae'r opsiwn hwn yn ceisio darparu ar gyfer swm sylweddol o ofyniad y CDLl naill ai ar safle strategol neu ar nifer fach o safleoedd allweddol mawr iawn, â gweddill gofyniad y CDLl yn cael ei wasgaru ar draws y Fwrdeistref Sirol.

4.13 Yr enghraifft ar gyfer yr opsiwn hwn oedd y strategaeth o'r CDLl Newydd Cyntaf a dynnwyd yn ôl a oedd yn nodi safle strategol ym Maesycwmer, â gweddill gofyniad y CDLl yn cael ei leoli ar safleoedd llai ar draws y Fwrdeistref Sirol.

4.14 Cafwyd trafodaeth dda ynglŷn â'r opsiwn hwn ac ymatebion cadarnhaol. Roedd nifer o'r cyfranogwyr yn nodi'r manteision sylweddol a allai ddod gyda dyraniad mawr. Y prif faterion a godwyd mewn cysylltiad â'r opsiwn hwn oedd:

- Mae angen cyfleoedd cyflogaeth ochr yn ochr â'r tai oherwydd maint y safle.
- Gwrthdaro posibl â phwyslais Llywodraeth Cymru ar leoli datblygiad yng nghanol trefi.
- Mae llawer o ddatblygu yn agos at ganolfannau arbennig ac mae'r opsiwn hwn yn ymddangos yn fwy o risg nag Opsiwn 2.
- Pryder ynglŷn â maint y safle strategol, a'r ffaith ei fod wedi'i gynnwys yn y CDLl Newydd a Dynnwyd yn Ôl, nad aeth yn ei flaen.

**Trafodaethau Cyffredinol**

4.15 Yn dilyn y ddadl ar yr opsiynau, cynhaliwyd trafodaeth ar y tri opsiwn. Y prif bwyntiau a oedd yn codi o'r rhain oedd:

- Barn gyffredinol y byddai'r opsiwn strategaeth priodol rywle rhwng opsiynau 2 a 3.
- Ni fydd y Cynllun yn llwyddo oni bai fod y strategaeth twf arfaethedig yn gynaliadwy – nid yw twf yn ddrwg yn ei hanfod.
- Nid oes digon o ffocws i'r strategaeth wasgaru.

- Mae gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol gyfrifoldeb i gynllunio'n gadarnhaol ar gyfer twf yn unol â chynllun Cymru'r Dyfodol.
- Angen ystyried capasiti amgylcheddol ardaloedd.
- Mae angen gwella'r rhwydwaith bysiau yn ogystal â'r rhwydwaith rheilffyrdd.

**Fforwm Ieuenctid**

4.16 Cynhaliwyd sesiwn gweithdy gyda'r Fforwm Ieuenctid. Eglurwyd strategaeth bresennol y CDLl mabwysiedig wrth y Fforwm, ynghyd â beth yr oedd hynny'n ei olygu ar gyfer datblygiad newydd. Eglurwyd hefyd y gellid ymdrin â dosbarthiad gofodol datblygiad newydd mewn nifer o ffyrdd:

- gwasgaru o amgylch y Fwrdeistref Sirol;
- targedu tuag at ganol trefi a/neu leoedd â thrafnidiaeth gyhoeddus dda; neu
- lleoli ar nifer fach o safleoedd mawr iawn.

4.17 Darparwyd map o'r Fwrdeistref Sirol yn dangos y trefi a'r aneddiadau, y rhwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd a'r ardaloedd tai a chyflogaeth presennol. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr osod symbolau yn cynrychioli tai, cyflogaeth, hamdden, cyfleusterau cymunedol ac ynni adnewyddadwy ar fap mawr o'r Fwrdeistref Sirol i nodi ble roeddent yn meddwl y dylai gwahanol fathau o ddatblygiad fynd ac egluro'r rhesymau pam.

4.18 Aeth y Fforwm am batrwm gwasgaredig o ddatblygiad. Roedd y prif bwyntiau trafod yn cynnwys:

- Targedu datblygiad o amgylch canol trefi, lle mae gwell cyfleusterau, mwy o wasanaethau a chysylltiadau â thrafnidiaeth gyhoeddus.
- Datblygu canol trefi a chanolfannau manwerthu i fod yn fwy fel Merthyr a Chaerdydd, angen mwy o siopau, manwerthwyr mawr, a siopau i bobl iau.
- Ddim yn awyddus i weld canol trefi'n dod yn ardaloedd i bobl fyw ynddynt yn hytrach na chanolfannau manwerthu – problemau ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Angen mwy o gyfleoedd cyflogaeth. Prinder swyddi medrus a swyddi a chyflog uchel.
- Mae pobl ifanc yn gadael y fwrdeistref i gael gwaith a does ganddynt ddim rheswm i ddod yn ôl.
- Prifysgolion da y tu allan i'r fwrdeistref, ond dim swyddi graddedigion i gael pobl ifanc i aros yn yr ardal a dechrau teulu, ac yn y blaen.
- Dylid lleoli tai yn agos at gysylltiadau trafnidiaeth.
- Mwy o fflatiau i bobl ifanc. Gellid lleoli'r rhain yn nes at orsafoedd rheilffordd a byddent yn denu myfyrwyr a phobl ifanc broffesiynol.
- Gormod o dai teras, ac nid yw'r cymysgedd o dai yn y fwrdeistref yn ddigon da.
- Angen tai sy'n gallu addasu i wahanol anghenion – er enghraifft trigolion hŷn.

## Seminar Strategaethau Amgen

4.19 Mae barn rhanddeiliaid a fynegwyd fel rhan o'r seminarau 'Darparu ar gyfer Twf' wedi bod yn sail i ddatblygu'r Opsiynau Strategaeth Amgen. Cynhaliwyd rhagor o sesiynau seminar i drafod yr opsiynau strategaeth yn fanylach. Cynhaliwyd cyfanswm o 7 sesiwn seminar ag ystod o randdeiliaid mewnol ac allanol, aelodau etholedig, cynghorwyr cymuned a phobl ifanc. Mae manylion y rhain i'w gweld isod:

| Seminarau | Nifer y Seminarau | Dyddiadau | Cyfanswm yn Bresennol |
|---|---|---|---|
| Grŵp Swyddogion | 1 | 8 Chwefror 2022 | 20 |
| Grŵp Rhanddeiliaid | 2 | 17 Chwefror 2022<br>23 Chwefror 2022 | 20 |
| Aelodau Etholedig a Chynghorwyr Cymuned | 3 | 17 Chwefror 2022<br>21 Chwefror 2022<br>23 Chwefror 2022 | 22 |
| Fforwm Ieuenctid | 1 | 3 Mawrth 2022 | 5 person ifanc, 2 weithiwr ieuenctid |

4.20 Yn ystod y sesiynau, eglurwyd sut y datblygwyd y strategaethau amgen. Amlinellwyd pob un o'r strategaethau amgen a rhoddwyd syniad ynglŷn â'r mathau o safleoedd ymgeisiol a allai fod yn addas dan bob un o'r opsiynau strategaeth. Roedd amod bod y safleoedd ymgeisiol yn dal i gael eu hasesu ac, o ganlyniad, er bod safle yn bodloni opsiwn strategaeth penodol yn nhermau lleoliad, roedd angen asesiad pellach er mwyn penderfynu a oedd mewn gwirionedd yn addas ar gyfer ystyriaeth bellach.

**Opsiwn 1: Parhau â Strategaeth y CDLl Mabwysiedig**

4.21 Y prif faterion mewn cysylltiad â'r opsiwn strategaeth hwn oedd:

- Roedd y cyfraddau adeiladu tai dan y strategaeth hon yn y CDLl presennol yn gyson is na gofynion y CDLl ac mae risg sylweddol y gallai hyn barhau.
- Mae'r strategaeth hon yn lleoli datblygiad lle mae ei angen.
- Yn dibynnu llawer iawn ar ddatblygu tir llwyd, ac nid oes llawer o safleoedd tir llwyd hyfyw ar ôl.

**Opsiwn 2: Canolbwyntio ar Flaenau'r Cymoedd**

- Er nad yw Blaenau'r Cymoedd wedi bod yn atyniadol i ddatblygwyr yn y gorffennol, a fyddai gogledd y Fwrdeistref Sirol yn fwy atyniadol o ganlyniad i weithio gartref?
- Mae eiddo yn yr ardal yn gwerthu'n gyflym – tystiolaeth bod galw.
- Mae ardal Blaenau'r Cymoedd yn lle deniadol i fyw ac yn cynnig cyfleoedd hamdden a thwristiaeth posibl.
- Mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â mater y llwybr cadernid. Ni ddylai hyn fod yn anfantais i'r opsiwn hwn.
- Mae cytundeb cyffredinol y dylai'r Cyngor fod yn ystyried mwy o ddatblygu yn yr ardal hon.

**Opsiwn 3: Prif Safle Strategol**

- Gallai canolbwyntio datblygiad mewn un ardal olygu nad oes tai fforddiadwy'n cael eu darparu yn rhywle arall.
- A fydd cyflogaeth yn rhan o'r safle strategol?
- I ba raddau y byddai cynefinoedd yn cael eu gwarchod, ac a fyddai'n bodloni polisi Cymru'r Dyfodol ar gadernid ecolegol?
- Sut fyddai'r safle strategol yn gwella cynaliadwyedd a theithio llesol?
- A fyddai'r opsiwn hwn yn dderbyniol dan bolisi cynllunio cenedlaethol? Teimlid bod angen hyrwyddo safleoedd â thros 1,000 o anheddau trwy Gynllun Datblygu Strategol ac mae'r cynnig yn cynnwys darparu ffordd newydd.

**Opsiwn 4: Canolbwyntio ar y Metro**

- Byddai'n ddibynnol ar gyswllt ar draws cymoedd yn ardal y cymoedd canol.
- Efallai y byddai'n anodd gwireddu datblygiadau di-gar.
- Beth yw'r prif nodau trafnidiaeth ar gyfer yr opsiwn strategaeth hwn?
- Bydd problemau ym Maesycwmer yn parhau os na chaiff safle strategol ei nodi.

**Opsiwn 5: Canolbwyntio ar Ganol Trefi**

- Nid yw pellter beicio o 20 munud yn gwneud synnwyr gan ei bod yn ardal rhy fawr. Dylid defnyddio pellter cerdded neu bennu pellter.
- Byddai Basn Caerffili yn ddadleuol oherwydd y llain las.
- Ni fyddai'r opsiwn hwn yn helpu Blaenau'r Cymoedd.
- Gallai'r opsiwn hwn olygu y byddai safleoedd yn llai ac yn fwy cynaliadwy.

**Opsiwn 6: Canolbwyntio ar Fasn Caerffili**

- Nid yw'n rhoi llawer o sylw i adfywio mewn lleoedd eraill.
- Nid yw'n bodloni dyheadau Llywodraeth Cymru o safbwynt yr amgylchedd neu'r economi.
- Byddai angen diogelu lletemau glas/lleiniau glas rhwng awdurdodau.
- Byddai hyn yn cynyddu tai cymdeithasol yn y de ac yn gwaethygu lleoedd gwag yn y gogledd.
- Byddai hyn yn adnewyddu'r gwrthwynebiadau ar raddfa fawr a godwyd ynglŷn â'r CDLl a dynnwyd yn ôl.

**Sylwadau Cyffredinol**

- A ellir llunio strategaeth hybrid o rannau o'r opsiynau hyn?
- Pryder nad yw perchnogion tir wedi cyflwyno safleoedd yn ardal Blaenau'r Cymoedd.
- Mae angen sicrhau bod safleoedd â chaniatâd cynllunio yn cael eu datblygu mewn gwirionedd.
- Gall y Cyngor nodi safleoedd ar wahân i safleoedd ymgeisiol e.e. tir sy'n eiddo i'r Cyngor.

4.22 Ar ddiwedd y seminarau, gofynnwyd i’r rhai a oedd yn bresennol gymryd rhan mewn pleidlais i ddynodi pa rai o’r strategaethau amgen oedd y rhai mwyaf priodol i’r cynllun yn eu barn hwy a pha elfennau strategaeth oedd y rhai pwysicaf i’w cynnwys yn y Strategaeth a Ffefrir.

4.23 O ran pa opsiwn strategaeth oedd yr un mwyaf priodol ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir, yr opsiwn hybrid oedd y ffefryn clir, yn cofrestru 26 o’r 48 pleidlais a fwriwyd. Opsiwn 5, â 9 pleidlais ac opsiwn 3 ag 8 pleidlais oedd yr opsiynau nesaf a ffefrid. Dylid nodi na dderbyniodd Opsiynau 1, 2 a 6 unrhyw bleidleisiau, ac mae hynny’n dangos yn amlwg nad oeddent yn opsiynau a ffefrid.

4.24 Roedd y bleidlais yn cynnig cyfle i’r rhai a ddewisodd yr opsiwn hybrid, ddewis pa rai o’r opsiynau strategaeth ddylai gynnwys yr opsiwn hybrid. Opsiwn 4 oedd yr un a dderbyniodd y nifer mwyaf o bleidleisiau â 19 pleidlais, tra oedd Opsiwn 3, â 14 pleidlais, ac Opsiwn 5, â 13 pleidlais yn dynn wrth ei sodlau. Unwaith eto mae’n amlwg nad oedd Opsiynau 1 (3 pleidlais), Opsiwn 2 (5 pleidlais) ac Opsiwn 6 (2 bleidlais) yn opsiynau a ffefrid.

4,25 Yn dilyn hyn gofynnwyd i’r rhai a oedd yn bresennol pa elfennau strategaeth yn eu barn hwy ddylai fod yn rhan o’r Strategaeth a Ffefrid. Nodwyd cyfanswm o 14 elfen strategaeth, sef:

- Mynd i’r afael ag anghenion cyflogaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- Dyrannu safle strategol.
- Darparu ar gyfer twf ym Masn Caerffili.
- Darparu ar gyfer twf yng Nghymoedd Ebwy a Sirhywi Isaf.
- Darparu ar gyfer twf ym Mlaenau’r Cymoedd.
- Darparu ar gyfer twf yn y Cymoedd Canol.
- Darparu tai fforddiadwy mewn ardaloedd lle mae eu hangen fwyaf.
- Hwyluso gwelliannau priffyrdd strategol ar yr A472.
- Canolbwyntio ar ddatblygiad yn agos at ganol trefi.
- Canolbwyntio ar ddatblygiad yn agos at nodau’r Metro.
- Cyfyngu twf ym Masn Caerffili.
- Cyfyngu twf yng Nghymoedd Ebwy a Sirhywi Isaf.
- Cyfyngu twf yn y Cymoedd Canol.

4.26 Canolbwyntio datblygiadau ar nodau’r Metro (30 pleidlais) a mynd i’r afael ag anghenion cyflogaeth (28 pleidlais) oedd yr elfennau a gafodd y nifer mwyaf o bleidleisiau. Derbyniodd chwe elfen 11 pleidlais neu lai a derbyniodd y 6 elfen isod 20 neu fwy o bleidleisiau:

- Dyrannu safle strategol (21 Pleidlais).
- Darparu ar gyfer twf ym Mlaenau’r Cymoedd (25 Pleidlais).
- Darparu ar gyfer twf yn y Cymoedd Canol (23 Pleidlais).
- Darparu tai fforddiadwy yn yr ardaloedd lle mae’r angen mwyaf (25 Pleidlais).

- Hwyluso gwelliannau priffyrdd strategol ar yr A472 (20 Pleidlais).
- Canolbwyntio datblygiad yn agos at ganol trefi (21 Pleidlais).

**Tabl: Pa rai o elfennau allweddol y strategaeth ddylai gael eu cynnwys yn Strategaeth a Ffefrir**

| Elfen Strategaeth Allweddol | Pleidleisiau |
|---|---|
| Canolbwyntio datblygiad yn agos at nodau metro | 30 |
| Mynd i'r afael ag anghenion cyflogaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol | 28 |
| Caniatáu ar gyfer twf ym Mlaenau'r Cymoedd | 25 |
| Darparu tai fforddiadwy yn yr ardaloedd mwyaf anghenus | 25 |
| Caniatáu ar gyfer twf yng Nghanol y Cymoedd | 23 |
| Dyrannu safle strategol | 21 |
| Canolbwyntio datblygiad yn agos at ganol trefi | 21 |
| Hwyluso gwelliant strategol i briffyrdd ar yr A472 | 20 |
| Cyfyngu ar dwf ym Masn Caerffili | 11 |
| Caniatáu ar gyfer twf ym Masn Caerffili | 10 |
| Caniatáu ar gyfer twf yng Nghymoedd Sirhywi Isaf ac Ebwy | 10 |
| Cyfyngu ar dwf yng Nghymoedd Sirhywi Isaf ac Ebwy | 2 |
| Cyfyngu ar dwf yng Nghanol y Cymoedd | 2 |
| Cyfyngu ar dwf ym Mlaenau'r Cymoedd | 1 |

**Fforwm Ieuenctid**

4.27 Cynhaliwyd cyfarfod ar-lein gyda'r Fforwm Ieuenctid, er mwyn egluro'r opsiynau ar gyfer lleoli datblygiad newydd. Cynhaliwyd pleidlais ar-lein er mwyn canfod pa bethau oedd yn cael eu hystyried fel y rhai pwysicaf wrth benderfynu ble mae datblygiad newydd megis tai a swyddi yn mynd.

| Pa rai yw'r rhai pwysicaf wrth benderfynu ble mae datblygiad newydd yn mynd? (Gallwch ddewis cymaint ag y mynnwch) | Nifer y pleidleisiau |
|---|---|
| Lleoli cartrefi a swyddi newydd mewn lleoedd sy'n agos at ganol trefi | 2 |
| Lleoli cartrefi a swyddi newydd yn agos at orsafoedd trenau a bysiau | 3 |
| Adeiladu tai mwy fforddiadwy mewn lleoedd lle mae'r angen mwyaf | 4 |
| Darparu swyddi ar draws y Fwrdeistref Sirol | 4 |
| Dyrannu safleoedd a fyddai'n helpu i ddarparu gwelliannau ffyrdd | 0 |
| Dyrannu safleoedd defnydd cymysg (cartrefi, swyddi a chyfleusterau cymunedol eraill mewn un lleoliad | 3 |

4.28 Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn cymryd rhan egluro pam eu bod wedi dewis yr opsiynau hynny:

- Nid ydynt yn gyrru ar hyn o bryd. Oherwydd hynny, nid yw ffyrdd yn cael eu hystyried yn fater pwysig.
- Effaith ar yr amgylchedd. Er y byddai hyn yn lleihau tagfeydd gallai achosi difrod i'r amgylchedd, bioamrywiaeth, ansawdd yr aer ac ati.
- Yr argyfwng tai yn cael ei ystyried yn bwysicach na gwelliannau ffyrdd newydd.

4.29 Yna gofynnwyd i'r rhai a oedd yn cymryd rhan a oeddent yn meddwl y byddai'n well lleoli llawer o dai mewn un lleoliad ar brif safle ynteu leoli tai newydd ar lawer o safleoedd llai?

| **A ydych yn meddwl y byddai'n well lleoli llawer o dai mewn un lleoliad ar brif safle ynteu leoli tai newydd ar lawer o safleoedd llai? (Dewiswch un)** | **Nifer y pleidleisiau** |
|---|---|
| Prif safle (llawer o dai mewn un lleoliad) | 1 |
| Safleoedd llai (llai o dai mewn llawer o leoliadau) | 1 |
| Cyfuniad o'r ddau | 4 |

4.30 Yn olaf, gofynnwyd i'r rhai a oedd yn cymryd rhan ym mha ardaloedd o'r Fwrdeistref Sirol yr oeddent yn meddwl y dylid lleoli datblygiad newydd.

| **Ble rydych yn meddwl y dylem fod yn lleoli tai a chyflogaeth newydd? (Gallwch ddewis cynifer o ardaloedd ag y mynnwch)** | **Nifer y pleidleisiau** |
|---|---|
| Blaenau'r Cymoedd (Bargod, Tredegar Newydd hyd at Rymni) | 3 |
| Ardal Ystrad Mynach Fwyaf (Ystrad Mynach, Nelson, Hengoed, Gelli-gaer) | 0 |
| Ardal Coed-duon Fwyaf (Coed-duon, Oakdale, Pontllan-fraith, Maesycwmer) | 3 |
| Basn Caerffili (Caerffili, Cwm Aber, Bedwas, Machen, Llanbradach) | 0 |
| Coridor Trecelyn i Risga (Rhisga, Aber-carn, Trecelyn, Ynys-ddu, Cwmfelin-fach) | 0 |

# 5. Nodi Strategaeth a Ffefrir ar gyfer yr Ymgynghoriad

5.1 Mae Adran 3 yn ystyried cydnawsedd strategol a manteision ac anfanteision pob un o'r Opsiynau Strategaeth. Os caiff y ffactorau hyn eu hystyried ochr yn ochr â'r pryderon a'r materion allweddol a fynegwyd gan randdeiliaid, gellir ffurfio rhai casgliadau ynglŷn ag addasrwydd pob un o'r opsiynau strategol.

**Opsiwn 1: Parhau â Strategaeth y CDLl**

5.2 Mae'r opsiwn strategaeth hwn yn ceisio parhau â'r strategaeth a nodwyd yn y CDLl mabwysiedig. Bydd y strategaeth yng Nghoridor Cysylltiadau'r De i gydgrynhoi datblygiad ar dir wedi'i ddatblygu'n flaenorol o fewn ffiniau aneddiadau diffiniedig yn anodd i'w chyflawni gan fod nifer o'r safleoedd tir llwyd sylweddol yn yr ardal wedi'u datblygu yn ystod cyfnod y cynllun blaenorol. Y safleoedd sydd ar ôl yw'r rhai sydd â chyfyngiadau sylweddol, ac o ganlyniad nid oes sicrwydd y gellir eu defnyddio ac mae pryder ynglŷn â'u hyfywedd.

5.3 Yn ychwanegol at hyn, mae gwir angen tai fforddiadwy ym Masn Caerffili, a bydd cyfyngu datblygiad i safleoedd tir llwyd o fewn y ffiniau aneddiadau presennol yn lleihau'r gallu i roi sylw i'r angen hwn.

5.4 O safbwynt polisi, nid yw'r opsiwn strategaeth hwn yn cael ei ystyried yn gydnaws â safbwynt strategol Cymru'r Dyfodol ar gyfer tref Caerffili.

5.5 Yng Nghoridor Cysylltiadau'r Gogledd, mae datblygu'n cael ei dargedu tuag at safleoedd tir llwyd a maes glas sy'n ystyried swyddogaethau cymdeithasol ac economaidd yr ardal. Os bydd datblygu'n cael ei dargedu tuag at safleoedd o fewn y ffiniau aneddiadau presennol yn y CDLl mabwysiedig, bydd cyfleoedd datblygu yn

gyfyngedig, ac yn gyffredinol, ar draws y tair ardal strategaeth, ni fydd digon o safleoedd addas, hyfyw y gellir eu defnyddio ar gael. Bydd cyfyngu ar ddatblygu yng Nghoridor Cysylltiadau'r De yn rhoi pwysau ar safleoedd maes glas yng Nghoridor Cysylltiadau'r Gogledd i ddarparu ar gyfer twf ychwanegol.

5.6 Ym Mlaenau'r Cymoedd, byddai'r strategaeth hon yn golygu targedu datblygu tuag at safleoedd tir llwyd a safleoedd maes glas. Er bod hon yn elfen ganmoladwy o'r strategaeth, gan y byddai'n ceisio mynd i'r afael â materion amddifadedd yn yr ardal, ac yn helpu i amrywio'r stoc dai, mae pryder sylweddol ynglŷn â hyfywedd safleoedd yn yr ardal a'r gallu i'w defnyddio, ac o ganlyniad nid yw'n realistig i grynhoi datblygiad sylweddol yn ardal Blaenau'r Cymoedd.

5.7 Mae Adroddiadau Monitro Blynyddol y CDLl wedi nodi'n gyson bod prinder tai, gan gynnwys tai fforddiadwy, wedi'i gyflawni trwy'r strategaeth hon, ac mae hyn yn codi pryder gwirioneddol ynglŷn â chyflawni'r strategaeth hon yn y dyfodol. O ystyried yr holl ffactorau hyn, credir nad yw'r strategaeth hon yn un briodol i barhau â hi yn yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd.

**Opsiwn 2: Canolbwyntio ar Flaenau'r Cymoedd**

5.8 Un o nodau'r Cyngor yw adfywio Blaenau'r Cymoedd er mwyn mynd i'r afael â'r heriau economaidd-gymdeithasol cynhenid ac amddifadedd. Byddai strategaeth sy'n ceisio cyfeirio lefel sylweddol o ddatblygiad i ardal Blaenau'r Cymoedd yn sicr yn helpu i adfywio'r ardal. Fodd bynnag, wrth baratoi'r Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd bydd angen i'r Cyngor ddangos bod y safleoedd a ddyrannwyd er mwyn bodloni'r gofynion tir ar gyfer tai a chyflogaeth yn hyfyw ac y gellir cyflawni'r gwaith yn ystod cyfnod y cynllun.

5.9 Yn anffodus, mae Blaenau'r Cymoedd yn ardal hyfywedd isel, â phrisiau tai isel. Mae'n anodd iawn dangos bod llawer o safleoedd yn yr ardal hon yn hyfyw ac y gellir cwblhau'r gwaith yn ystod cyfnod y cynllun. O ganlyniad, mae'r cyfraniad y gallai safleoedd yn yr ardal hon ei wneud i'r gofynion tai cyffredinol yn debygol o fod yn gyfyngedig, sy'n wrthdaro cynhenid â phwrpas yr opsiwn strategaeth o nodi swm sylweddol o ofyniad y CDLl yn yr ardal. O ystyried y materion hyn, nid yw'r opsiwn hwn yn briodol i'w ystyried ar gyfer yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd gan na fydd yn darparu'r lefel o ddatblygiad yn ardal Blaenau'r Cymoedd y byddai'r strategaeth yn gofyn amdano.

5.10 Dylid nodi, fodd bynnag, er nad yw'r opsiwn hwn yn briodol i'w ddefnyddio fel strategaeth y CDLl, nid yw hyn yn atal y CDLl rhag nodi safleoedd i anelu atynt (rhai a allai ddod ymlaen, ond nad ydynt yn cyfrif tuag at fodloni gofyniad y CDLl) i geisio cynyddu datblygiad yn yr ardal.

**Opsiwn 3: Y Safle Strategol**

5.11 Mae'r opsiwn hwn yn lleoli cyfran sylweddol o ofyniad y CDLl ar un safle mawr er mwyn cynhyrchu cyfalaf datblygu sylweddol a manteision cysylltiedig. Ar gyfer yr opsiwn hwn, mae'r Cyngor yn edrych ar y safle strategol ym Maesycwmer a fyddai'n darparu hyd at 1,200 o anheddau yn ystod cyfnod y cynllun, â'r 1,500 o anheddau sy'n weddill yn cael eu darparu yn ystod cyfnod cynllun dilynol.

5.12 Mae gan yr opsiwn hwn y potensial i ddarparu manteision sylweddol, gan gynnwys cynyddu hygyrchedd, hybu trafnidiaeth gynaliadwy, gwella seilwaith gwyrdd a mynd i'r afael â phroblemau tagfeydd o amgylch Maesycwmer. Ar y llaw arall, mae

risg gynhenid â safle strategol y bydd y strategaeth yn cael ei thanseilio os na fydd y safle strategol yn cyflawni'r datblygiad.

5.13 Yn gyffredinol, mae hwn yn opsiwn strategaeth a allai gael ei gyflwyno fel strategaeth a ffefrir y CDLl. Nid yw'r safle strategol ar ei ben ei hun yn ddigon i gyflawni'r gofyniad tai ar gyfer y Cynllun, a byddai angen safleoedd ychwanegol mewn rhannau eraill o'r Fwrdeistref Sirol.

**Opsiwn 4: Canolbwyntio ar Fuddsoddiad yn y Metro**

5.14 Mae'r opsiwn hwn yn ceisio crynhoi datblygiad mor agos ag sy'n bosibl i'r gorsafoedd ar linellau rheilffordd Cwm Rhymni a Chwm Ebwy ac i'r gorsafoedd bysiau yng Nghoed-duon a Nelson. Mae'r ffocws hwn yn gydnaws ag uchelgeisiau Cymru'r Dyfodol i sicrhau'r budd mwyaf o'r buddsoddiad yn y Metro. Gall yr opsiwn hwn ddarparu manteision sylweddol o ran cefnogi a chynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy, cynyddu hygyrchedd a gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer newid dulliau teithio.

5.15 Effaith yr opsiwn hwn yw datblygu safleoedd yn agos at nodau trafnidiaeth mewn aneddiadau sy'n bodoli'n barod. Mae'r opsiwn hwn yn cynyddu'r pwysau ar fannau agored trefol a allai gael effaith anffafriol ar ansawdd bywyd yn yr aneddiadau hynny. Yn ychwanegol at hyn, gallai'r opsiwn hwn gau allan safleoedd manteisiol ac sydd wedi'u lleoli'n gynaliadwy sydd ymhellach oddi wrth nodau trafnidiaeth na safleoedd llai manteisiol.

5.16 Er gwaetha'r pwyntiau negyddol gellid mynd â'r opsiwn hwn yn ei flaen fel y strategaeth a ffefrir ar gyfer yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd.

**Opsiwn 5: Canolbwyntio ar Ganol Trefi**

5.17 Mae'r opsiwn hwn yn ceisio cyfeirio datblygiad newydd tuag at brif ganol trefi Caerffili, Rhisga, Ystrad Mynach, Coed-duon a Bargod a chanolfannau lleol Bedwas, Nelson, Trecelyn a Rhymni. Mae'r opsiwn hwn yn uniongyrchol gydnaws â pholisi Cymru'r Dyfodol sy'n cefnogi'r dull gweithredu Canol Trefi yn Gyntaf. Mae'r opsiwn hwn yn gyson iawn â chreu lleoedd ac aneddiadau cynaliadwy.

5.18 Unwaith eto, mae'r opsiwn hwn yn ceisio cyfarwyddo datblygiad newydd o fewn aneddiadau sy'n bodoli'n barod sy'n debygol o roi mannau agored trefol dan bwysau sylweddol ar gyfer datblygiad, a fyddai'n arwain at anfanteision o safbwynt ansawdd bywyd yn yr aneddiadau. Yn ychwanegol at hyn, gallai'r opsiwn hwn golli safleoedd mewn lleoliadau mwy cynaliadwy, yn enwedig rhai sy'n agos at nodau trafnidiaeth y tu allan i'r prif drefi a chanolfannau lleol.

5.19 Yn gyffredinol, mae'r opsiwn hwn yn un y gellid mynd ag ef yn ei flaen fel y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLl newydd.

**Opsiwn 6: Canolbwyntio ar Fasn Caerffili**

5.20 Mae'r opsiwn hwn yn ceisio targedu datblygiad newydd o fewn Coridor Cysylltiadau'r De, gan gynnwys Basn Caerffili, a fyddai'n gydnaws â Pholisi 33 Cymru'r Dyfodol a'r datganiad bod Caerffili yn lleoliad strategol ar gyfer twf economaidd cynaliadwy ac adfywio. Byddai'r opsiwn hwn yn ceisio sicrhau'r budd mwyaf o'r swm sylweddol sy'n cael ei fuddsoddi er mwyn adfywio tref Caerffili trwy leoli cyfran sylweddol o ofyniad y CDLl yn yr ardal hon.

5.21 Byddai'r opsiwn hwn yn galw am ddatblygu safleoedd maes glas a thir llwyd er mwyn sicrhau bod digon o dir ar gael i gyflawni gofynion y CDLl. Byddai rhyddhau

safleoedd maes glas yn groes i strategaeth y CDLl Mabwysiedig a byddai datblygiadau newydd yn fygythiad i'r dirwedd ym Masn Caerffili. Byddai hefyd yn dod â safleoedd a oedd yn arfer bod yn rhai dadleuol iawn yn ôl i ystyriaeth fel dyraniadau, ac mae hyn yn debygol o arwain at gryn wrthwynebiad. Mae'r llain las o amgylch Caerffili, er nad yw'n fater i'r CDLl a bod yn fanwl gywir, yn fater sy'n codi, er mai'r man cychwyn ar gyfer unrhyw ffin llain las yw'r cwestiwn a oes digon o dir wedi'i ganiatáu ar gyfer ehangu aneddiadau yn y dyfodol.

5.22 Byddai'r opsiwn hwn yn gyfle i greu datblygiad newydd yn agos at gyfnewidfa a chanol tref Caerffili, gan ddarparu datblygiad cynaliadwy mewn ardal lle mae llawer o alw ac angen am dai cymdeithasol.

5.23 Er bod gan yr opsiwn hwn fanteision cryf iawn, nid yw wedi cael llawer o gefnogaeth gan y rhanddeiliaid oherwydd y posibilrwydd o effaith anffafriol ar dirwedd y Fasn, effaith bosibl y llain las a natur hynod ddadleuol datblygiad maes glas ym Masn Caerffili. Teimlad cyffredinol y rhanddeiliaid oedd y dylai datblygiad fod yn fwy cytbwys yn hytrach na chael ei grynhoi mewn ardal strategol benodol, yn enwedig oherwydd y dybiaeth bod Basn Caerffili wedi gweld twf sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. O ganlyniad, nid yw'r opsiwn hwn yn cael ei ystyried yn ddymunol ar gyfer Strategaeth a Ffefrir y CDLl newydd.

**Dadansoddiad a Chasgliadau**

5.24 Mae asesiadau'r opsiynau strategaeth wedi diystyru opsiynau 1, 2 a 6 fel opsiynau posibl i'w hystyried fel y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLl newydd. Mae hynny'n gadael Opsiynau 3, 4 a 5 fel y sail bosibl ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir.

5.25 Fodd bynnag, roedd yn amlwg o ymgysylltu â rhanddeiliaid mai opsiwn hybrid yn cynnwys prif elfennau Opsiynau 3, 4 a 5 oedd y rhai mwyaf ffafriol. Prif elfennau'r strategaethau hyn sy'n cael eu hystyried yn briodol i'w cynnwys yn y Strategaeth a Ffefrir yw:

- Canolbwyntio datblygiad ar nodau'r Metro.
- Mynd i'r afael ag anghenion cyflogaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- Dyrannu safle strategol.
- Darparu ar gyfer twf ym Mlaenau'r Cymoedd.
- Darparu ar gyfer twf yn y Cymoedd Canol.
- Darparu tai fforddiadwy mewn ardaloedd lle mae'r angen mwyaf.
- Hwyluso gwelliant priffyrdd strategol ar yr A472.
- Canolbwyntio datblygiad yn agos at ganol trefi.

5.26 Er nad oedd llawer o'r ymatebwyr yn credu y dylid cyfeirio twf sylweddol at Fasn Caerffili neu Gymoedd Ebwy a Sirhywi Isaf, byddai angen i'r prif drefi yn yr ardal hon (Caerffili a Rhisga) ddarparu ar gyfer elfen o dai a chyflogaeth newydd yn unol â'r elfennau strategaeth er mwyn lleoli datblygiad yn agos at ganol trefi a hefyd er mwyn mynd i'r afael ag anghenion cyflogaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol. Byddai ardaloedd preswyl eraill sydd o fewn pellter cerdded a beicio priodol o orsafoedd rheilffordd ar linellau rheilffordd Cwm Rhymni a Chwm Ebwy a'r gorsafoedd bysiau yn Nelson a Choed-duon hefyd yn cael eu hystyried yn lleoliadau priodol ar gyfer datblygu.

### Grŵp Ffocws y CDLl

5.27 Yn dilyn canlyniad y gyfres o seminarau, a oedd yn dangos y dylid seilio'r Strategaeth a Ffefrir ar strategaeth hybrid, yn deillio o gyfuniad o Opsiynau 3, 4 a 5, gwnaethpwyd argymhelliad i Grŵp Ffocws y CDLl fel a ganlyn:

**Dylai'r Strategaeth a Ffefrir a ddefnyddir fel sail i'r CDLl fod yn strategaeth hybrid yn seiliedig ar elfennau o Opsiwn 3: Y Safle Strategol, Opsiwn 4: Canolbwyntio ar y Metro ac Opsiwn 5: Canolbwyntio ar Ganol Trefi.**

5.28 Cafodd cynnyrch y gyfres o seminarau ei ystyried gan Grŵp Ffocws y CDLl mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2022. Pleidleisiodd Grŵp Ffocws y CDLl yn unfrydol i dderbyn yr argymhelliad.

# 6 Adolygiad y Strategaeth a Ffefrir

6.1 Ymgynghorodd y Cyngor ar y Cynllun Cyn-adneuo ym mis Hydref a mis Tachwedd 2022. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, cododd Llywodraeth Cymru wrthwynebiadau ynglŷn â chydymffurfio mewn perthynas â:

- Dyraniad y safle strategol ym Maes-y-cwmwr,
- Y dull a'r cyd-destun rhanbarthol ar gyfer y twf arfaethedig yn y strategaeth,
- Y dull sy'n seiliedig ar natur wrth baratoi'r cynllun.

6.2 Er mwyn symud ymlaen gyda'r cynllun, byddai angen datrys y tri gwrthwynebiad cydymffurfio gan y gallai gwrthwynebiadau cydymffurfio olygu na fyddai'r cynllun yn gadarn yn yr archwiliad. I'r perwyl hwn, aed i'r afael â gwrthwynebiad cydymffurfio'r dull rhanbarthol gan astudiaeth ranbarthol ar dwf a mudo a gynhaliwyd ar gyfer Dinas-Ranbarth Caerdydd (EB 21) ac ymdriniwyd â'r gwrthwynebiad cydymffurfio â dull seiliedig ar natur gan asesiad isadeiledd gwyrdd y Cyngor sy'n ffurfio rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y cynllun (EB 20).

6.3 Codwyd y gwrthwynebiad cydymffurfio ynglŷn â'r safle strategol ar y sail nad oedd yn cydymffurfio â pholisïau Cymru'r Dyfodol 1 – Ble bydd Cymru yn tyfu, 2 – Llywio Twf ac Adfywio Trefol, 3 – Creu Lleoedd Strategol, 6 – Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf, 12 – Cysylltedd Rhanbarthol a 36 – Metro'r De-ddwyrain ar y sail nad yw'n cynrychioli twf cynaliadwy, nad yw'n lleihau'r angen i deithio mewn car, nad yw'n cefnogi teithio llesol nac yn gwneud y mwyaf o drafnidiaeth gyhoeddus ac nad yw'n ymgorffori isadeiledd gwyrdd. Er nad yw'r Cyngor yn cytuno â rhesymau Llywodraeth Cymru dros y gwrthwynebiad cydymffurfio, pe bai'r Cyngor yn parhau â'r cynllun sy'n cefnogi dyraniad y safle strategol, mae'n annhebygol iawn y gallai'r Cyngor ddod â' phrosesu'r cynllun i ben gyda chynllun mabwysiedig, o ystyried y potensial i'r cynllun gael ei weld fel na fyddai'n gadarn yn yr archwiliad a'r ffaith fod gan Lywodraeth Cymru y pwerau i ymyrryd yn y broses ac atal y Cyngor rhag mabwysiadu cynllun.

6.4 Mae'r CDLl mabwysiedig, er ei fod yn dal mewn grym, bellach wedi mynd heibio diwedd cyfnod ei gynllun ac mae angen i'r Cyngor fabwysiadu cynllun newydd cyn gynted â phosibl er mwyn cynnal fframwaith polisi cyfoes. O ystyried hyn, ar y cyd â'r risg uchel na fyddai'r Cyngor yn gallu mabwysiadu'r cynllun gyda dyraniad y safle strategol, penderfynodd y Cyngor ddileu dyraniad y safle strategol o strategaeth yr Ail CDLl yng nghyfarfod y Cyngor ar 24 Gorffennaf 2024. Yn y cyfarfod hwn, cytunodd y Cyngor y byddai'r Ail CDLl yn destun ymgynghoriad cyn-adneuo pellach gyda strategaeth yn seiliedig ar yr elfennau sy'n weddill o'r strategaeth, sef Ffocws ar Ganol Trefi a Ffocws ar y Metro, ar gyfer datblygu.

# Atodiad 1: Asesiad o opsiynau strategaeth

## Yr Amcanion Allweddol

| Amcanion | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 | Opsiwn 4 | Opsiwn 5 | Opsiwn 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Darparu ar gyfer lefelau cynaliadwy o dwf poblogaeth sy’n cyd-fynd â statws y Fwrdeistref Sirol yn yr Ardal Dwf Genedlaethol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 2. Rheoli, cadw a gwella ansawdd lleoedd agored a thirweddau a’u diogelu rhag ffurfiau datblygu amhriodol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 3. Darparu dyletswydd bioamrywiaeth drwy nodi isadeiledd glas a gwyrdd presennol a newydd ac asedau bioamrywiaeth, a’u diogelu a’u gwella | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 4. Sicrhau bod effaith amghylcheddol yr holl ddatblygiadau newydd yn cael ei leihau | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5. Sicrhau bod cynigion datblygu yn mynd i'r afael ag addasu yn sgil newid yn yr hinsawdd a mesurau lliniaru'n llawn, yn unol â'r hierarchaeth ynni | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 6. Darparu targedau dim carbon Llywodraeth Cymru a chynorthwyo argyfwng hinsawdd y Cyngor drwy hyrwyddo datblygiad y genhadaeth ynni adnewyddadwy mewn lleoliadau priodol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 7. Sicrhau bod yr holl ddatblygiadau wedi'u hategu gan egwyddorion yr economi leol, yn atal gwastraff drwy ystyried dewisiadau dylunio a thrin safleoedd a chynnig darpariaeth ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff sy'n cyfleu trefn blaenoriaethau | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ’r hierarchaeth gwastraff | | | | | | |
| 8. Annog ail-ddefnyddio a/neu ail-feddiannu tir llwyd priodol a thir wedi’i halogi ac atal halogi ac adfeilio pellach | Cadarnhaol Cryf | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 9. Sicrhau bod lleoliad datblygu newydd yn hwyluso mynediad i gludiant cynaliadwy a theithio llesol a bod y datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd â rôl a swyddogaeth aneddiadau yn unol â’r hierarchaeth anheddiad | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol Cryf | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 10. Sicrhau bod amrywiaeth ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael ar draws y Fwrdeistref Sirol yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy i fodloni gofynion tai holl rannau’r boblogaeth | Negyddol | Negyddol | Cadarnhaol | Cadarnhaol Cryf | Cadarnhaol Cryf | Negyddol |
| 11. Sicrhau bod yr holl ddatblygu yn | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| bodloni gofynion creu lleoedd da, dylunio a chynaliadwyedd fel a amlinellwyd yn y Siarter Creu Lleoedd, gan greu lleoedd gydag ymdeimlad cryf o gymuned, dylunio o safon, cynaliadwyedd, gweithgarwch, cydraddoldeb a chreu ymdeimlad o le | | | | | | |
| 12. Rheoli, amddiffyn a gwella maint a safon yr amgylchedd dŵr a lleihau'r defnydd o ddŵr | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 13. Lleihau effaith llifogydd drwy sicrhau bod datblygu sy'n agored iawn yn cael ei symud oddi wrth ardaloedd â risg ganolog ac uchel o lifogydd a gwreiddio egwyddorion SuDS cadarn mewn cynlluniau datblygu o'r dechrau | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 14. Lleihau’r angen i deithio drwy hyrwyddo cyfuniad o ddyraniadau defnydd o dir mewn lleoliadau cynaliadwy a darparu isadeiledd digidol gwell | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol Cryf | Cadarnhaol Cryf | Cadarnhaol Cryf | Cadarnhaol |
| 15. Hyrwyddo mynediad i bawb drwy flaenoriaethu cerdded a beicio (teithio llesol), a chludiant cyhoeddus ac yn olaf, cerbydau modur, a thrwy hynny, lleihau llygredd aer a’r ddibyniaeth ar gerbydau preifat | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol Cryf | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 16. Mwyafu safle’r Fwrdeistref Sirol yn yr Ardal Dwf Genedlaethol, gan gefnogi adfywio cydlynus a buddsoddiad i wella lles, cynyddu ffyniant a mynd i’r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol ac atgyfnerthu rolau strategol | Cadarnhaol | Cadarnhaol Cryf | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Caerdydd a Chasnewydd | | | | | | |
| 17. Darparu ac amddiffyn portffolio amrywiol o dir cyflogaeth ar gyfer amrywiaeth o fathau o ddefnydd yn y lleoliadau mwyaf priodol, gan sicrhau bod swyddi a thai'n cyd-fynd â gwasanaethau ac isadeiledd trafnidiaeth cynaliadwy | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol Cryf | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 18. Gwella'r economi ymwelwyr yn sylweddol drwy wella atyniadau twristaidd gydol y flwyddyn a llety i ymwelwyr, a datblygu rhai newydd ac amrywiol, a mwyafu'r manteision cysylltiedig mae'r gwelliannau'n eu darparu | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 19. Hyrwyddo system cludiant cyhoeddus integredig a chynaliadwy | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol Cryf | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 20. Sicrhau darpariaeth isadeiledd | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| gwefru cerbydau isel iawn o ran allyriadau | | | | | | |
| 21. Darparu amrywiaeth eang o gyfleusterau cymunedol, â lleoliadau priodol, sy’n hygyrch iawn, sy’n gwella iechyd a lles ac sy’n diwallu anghenion y Fwrdeistref Sirol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 22. Hyrwyddo, cynnal a gwella canolfannau manwerthu a masnachol y lleoliadau mwyaf cynaliadwy lle gall pobl fyw, gweithio, siopa, cymdeithasu a chynnal busnes, yn unol â’r egwyddor canol tref yn gyntaf a’r hierarchaeth canolau sefydledig yn y cynllun, a sicrhau mynediad iddynt drwy foddau cynaliadwy o gludiant | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol Cryf | Cadarnhaol Cryf | Cadarnhaol |
| 23. Amddiffyn, cadw a chynyddu | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| gwerth yr Amgylchedd Hanesyddol drwy hyrwyddo treftadaeth fel ased ac annog ailddefnyddio addasedig, cynaliadwyedd, creu lleoedd ac adfywio | | | | | | |
| 24. Hyrwyddo Amgylchedd Hanesyddol drwy leoedd hanesyddol sy'n cyfrannu at hanes Bwrdeistref Sirol Caerffili, wrth hyrwyddo a gwarchod treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol, drwy gymunedau lleol a chynnwys ymwelwyr | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 25. Sicrhau bod y Fwrdeistref Sirol yn cael ei gwasanaethu'n dda gan le agored cyhoeddus hygyrch a mannau gwyrdd naturiol a hygyrch, sy'n hybu ffordd o fyw iach ac actif ac sy'n gwella lles yn gyffredinol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |

## Polisi Cymru'r Daffodil

| Polisi Cymru'r Dyfodol | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 | Opsiwn 4 | Opsiwn 5 | Opsiwn 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Ble bydd Cymru yn tyfu | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 2. Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol Cryf | Cadarnhaol Cryf | Cadarnhaol Cryf | Cadarnhaol |
| 3. Cefnogi Twf ac Adfywio Trefol – Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 4. Cefnogi Cymunedau Gwledig | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 5. Cefnogi'r economi wledig | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 6. Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol Cryf | Cadarnhaol |
| 7. Darparu Cartrefi Fforddiadwy | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol Cryf |
| 8. Llifogydd | Cadarnhaol | Negyddol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 9. Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn a Seilwaith Gwyrdd | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 10. Cysylltedd Rhyngwladol | Niwtral | Niwtral | Niwtral | Niwtral | Niwtral | Niwtral |
| 11. Cysylltedd Cenedlaethol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol Cryf | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 12. Cysylltedd Rhanbarthol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol Cryf | Cadarnhaol | Cadarnhaol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 13. Cefnogi Cyfathrebu Digidol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 14. Cynllunio mewn Parthau Gweithredu Telathrebu Symudol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 15. Fforest Genedlaethol | Niwtral | Niwtral | Niwtral | Niwtral | Niwtral | Niwtral |
| 16. Rhwydweithiau Gwresogi | Niwtral | Niwtral | Niwtral | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol Cryf |
| 17. Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 18. Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel o Arwyddocâd Cenedlaethol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 19. Polisïau Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 33. Ardal Dwf Genedlaethol – Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 34. Lleiniau Glas yn y De-Ddwyrain | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Negyddol |
| 35. Parc Rhanbarthol y Cymoedd | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol |
| 36. Metro'r De-ddwyrain | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol | Cadarnhaol Cryf | Cadarnhaol | Cadarnhaol Cryf |